

ECO'R WYDDFA

RHIF 79

MAWRTH 1983

Pris 20c

PŴER DEINIOLLEN



Chwefror 5 cadarnhaodd Len Jones o Ddeiniolen mai y fo ydi'r codwr pwysau pwer gorau yn ei ddosbarth (60 kilo) drwy Gymru benbaladr. Daeth anrhydedd cenedlaethol hefyd i Cemlyn Thomas, 18 oed o'r un pentref a ddaeth yn drydydd yn ei ddosbarth (67 a hanner kilo) yn yr adran iau.

Mae'r ddau, a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Codi Pwysau Pŵer Cymru yn Llanelli, yn aelodau o Glwb Dinorwig. Ers tair blynedd yn unig y mae'r ddau wedi bod yn codi pwysau'n gystadleuol.

Yn y tair agwedd sy'n ofynnol i'w cyflawni cododd Len gyfanswm o 452 a hanner kilo. Ei obaith yw y gall ychwanegu tua 50 kilo arall at hyn yn ystod y misoedd nesaf er mwyn teilyngu ei le ym Mhencampwriaethau Gwledydd Prydain. Cyfanswm Cemlyn oedd 400 kilo, a bydd rhaid iddo fo godi 80 kilo yn ychwanegol er mwyn cystadlu yn "y Brydeinig".

Felly, o hyn tan y gystadleuaeth fawr nesa, sef Cwpan Cymru yn Hwlfordd ym mis Mehefin – bydd yr hogia yn ymarfer yn galed yn seler yr hen ysgol – sef cartref Clwb Dinorwig. Byddant hefyd yn defnyddio adnoddau Clwb Llanrug ac yn elwa o brofiad helaeth leuan Owen yr hyfforddwr.

Dyweddodd Len, sy'n hyfforddi'r hogia yng Nghlwb Dinorwig fod cyfle i unrhyw un sydd dros 12 oed ymaelodi. Felly beth amdani, chi hogia cryf yr ardal? Bydd yr hyfforddiant a gynigir yn cael ei darparu gan bencampwr Cymru!

Dymuna Len a Cemlyn

ddatgan eu diolch i ferched tîm dartiau y Tarw, Deiniolen am fynd ati i gasglu'r arian ar gyfer y daith i Lanelli a hefyd i leuan Owen am yr hyfforddiant a gafwyd.

21 TYMOR – AC MAE'N DAL I REDEG!



Ein llongyfarchiadau i Gwilym Williams sy wedi chwarae pêl-droed i dîm Llanberis am 21 o dymhorau. Gyda Gwilym yn y llun mae llywydd clwb Llanberis – Mr I. Ellis Jones. Stori lawn ar y dudalen ôl.

FFUG EISTEDDFOD YR ECO



Y ddwy aelod mwyaf heini o dîm Penisarwaun, Mrs E. Porter a Mrs K. Williams, yn dal Tlws yr Eco (rhodd gan Fanc y Midland) ar ôl ei dderbyn gan Mr Harry Jones, Rheolwr Cangen Llanberis. Yn y llun hefyd mae Miriam Hughes, Trefnydd y Ffug-eisteddfod ac arweinydd y noson, ynghyd â gweddill y merched dawnus o'r pentref buddugol. Mae'r canlyniadau, cynnyrch a llawer mwy o luniau tu mewn.

DYFODOL Y CO-OP



Siop Cymdeithas Gydwethredol Llanrug Cyf. Penderfynodd Aelodau'r Gymdeithas mewn cyfarfod arbennig nos Lun, 28 Chwefror i beidio ag ymuno â'r CRS. Roedd y cyfarfod yn unfrydol bron i aros yn annibynnol. Manylion llawn ar dudalen 7.

GŴYL DDRAMA YN Y FRO

Mae'r Eco'n barod i noddî Gŵyl o Ddramâu byrion gan gwmnïau o bentrefi'r ardal i'w cynnal ganol Tachwedd nesa'. Ein gobaith yw trefnu tair noson o ddramâu swyddogol. Bydd cwpan hardd i'w gadw am flwyddyn i'r cwmni a ddyfennir yn orau.

Penderfynwyd mynd ati i drefnu'r Wyl oherwydd fe deimla'r Eco fod angen y math hwn o weithgaredd yn y fro. Mae'r traddodiad o chwarae drama, a fu unwaith yn rhywbeth byw mewn cymaint o'n pentrefi, ac yn dal felly yn Llanberis, wedi mynd i gyssgu ers tro byd.

Tybed a yw'n bosib ei ddeffro?

Fe brofodd y ffug-eisteddfod ddiweddar rywbeth (ar wahân i'r ffaith fod llawer o bobl wirion yn byw yn y fro!) – sef nad oes prinder adnoddau yn ardal Eco'r Wyddfa. Mae gennym drefnwyr, cynhyrchwyr, actorion a gweithwyr yn llechu ym mhob pentref – pobl a fuasai'n barod i ymgymryd â'r gwaith o wneud Gŵyl Ddrama yn llwyddiant.

Eisoes mae rhai wedi dangos brwdfrydedd tuag at y syniad. Ond cyn y gallwn drefnu ymhellach bydd yn rhaid i ni gael gwybodaeth sicr ynglŷn â nifer y cwmnïau. Gorau po gyntaf y gwnewch hyn gan fod llawer o waith paratoi i'w wneud a hynny yn ddi-oed.

Felly, am ragor o fanylion cysylltwch â Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Cwm-y-glo (Llanberis 870416) neu ag unrhyw un o'r golygyddion cyn Mawrth 31 os gwelwch yn dda.

NEGES I BENTREFWYR BRYNREFAIL A CHWM-Y-GLO

Hoffem ymddiheuro i bawb sydd yn byw ym Mrynrefail a Chwm-y-glo am yr anffawd a ddigwyddodd yn rhifyn Chwefror o'r Eco. Mae nifer o bobl o'r ddau bentref wedi holi ynglŷn â newyddion eu pentrefi. Bydd pawb a graffodd yn ofalus ar yr Eco wedi sylweddoli erbyn hyn ein bod ni wedi cynnwys y newyddion, ond, yn anffodus, drwy gamddealltwriaeth ymddangosodd pennawd Bethel uwchben colofn Brynrefail, a phennawd Tan-y-coed uwchben colofn Cwm-y-glo. Rydym yn ymddiheuro'n arw iawn am hyn, yn enwedig i Mr Dafydd Ellis, Gohebydd Brynrefail, ac i'r cyfeillion o Gwm-y-glo a anfonodd newyddion i mewn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 79
MAWRTH 1983

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhyallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO:

DEINIOLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

MAWRTH 31

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

MAWRTH 22

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

BODFEAN HOUSE LLANBERIS

Annwyl Syr,

Ceisïaf ateb y cwestiwn
ofynnwyd dan Llanberis yn Rhif
78 Chwefror 1983 yn gofyn "Ple
yn Llanberis y mae Bodfean
House."

Mae fy nghyfnither Mrs Ellen
Griffith, Bryn Llwyd, Newton
Street, Llanberis a minnau'n
meddwl mai tŷ sydd erbyn hyn
wedi ei chwalu, y tŷ uchaf yn
Stryd Goodman, oedd o ac mi
roedd Siop fach yn y parlwr yn
gwerthu llefrith a da-da a
phethau eraill.

Siop Mrs Hughes Dairy
oeddym yn ei galw ac mi roedd
ganddi fab a merch Jack a Nell
Hughes Dairy.

Mi roedd Nell Hughes yn
athrawes arna i yn Ysgol
Dolbadarn ar un adeg, ac fe
briododd gyda 'Naval Officer' o'r
enw Cookson a dod i fyw i Lys
Orwig Newton Street.

Efallai bod gan rhywun arall
syniad arall ac yn cofio am siop
yn Olgra Terrace. Mi fyddai yn
ddiddorol cael gwybodaeth am y
llu siopau bach oedd yn y pentref
yma flynyddoedd lawer yn ôl.

Yn gywir,

Mrs M. Lewis,
Llys Tudur,
Warden Street,
Llanberis.

Syr,

Wedi darllen y
rhifyn Ionawr o'r Eco, a deall fod
rhywun yn awyddus o wybod lle'r
oedd Bodfean House, daeth llw o
atgofion i fy meddwl, ac mae'n bleser
o'r mwyaf gennyf roddi hynny o
wybodaeth a allaf i chwi.

Ganwyd fi yn Yr Ynys Wen. Nid y tŷ
mawr cerrig a welir yno heddiw, ond
mewn tyddyn bach tu ôl i Ynys Ddu
(mae rhai olion ohono yno o hyd).
Yno gyda fy nhad William Roberts a
mam Amelia Winifred, fy mrawd
Willie, y trigwn. Pan yn 6 oed ('rwyf
yn 86 erbyn hyn), symudodd fy nhad
a mam i Rhif 51 Stryd Goodman, ac
enw'r tŷ oedd Bodfean House. Cofiaf
yn glir y blynyddoedd cynnar a'r
nosweithiau difyr o ganu fyddai ar yr
aelwyd. Byddai Arthur, mab Ap
Glaslyn yn ffrind i fy nhad a deuai yno
lawer i noson i ganu a chodi hwyl.

Roedd 53 o dai yn Stryd Goodman,
a dymchwelwyd Rhif 53 - lle roedd
Siop crydd, a Sais o'r enw Mr
Portlock yn byw yno.

Ymhen ychydig flynyddoedd
priodais â mab y diweddar Thomas
Ellis Williams, Mur Mawr, Evan
Aneuryn Williams a symud i fyw i
Mur Mawr. Ni chefais fawr o fywyd
priodasol oherwydd collais fy mhriod
mewn damwain yn y Chwarel,
Rhagfyr 1933. Roedd gennyf un ferch
fach, Muriel, hithau yn briod erbyn
heddiw. Yn ystod y blynyddoedd
daeth cyflwr tai Stryd Goodman yn
druenus a gorfodwyd yn 1939 i'r
perchenogion sef y Stâd Ruthin
(Ruthin Charities) i atgyweirio'r tai i
gyd. Wedi hyn dychwelais i fyw i Rhif
46 Stryd Goodman, ac yno y bŵm
gyda'm merch a'i phriod hyd i Stâd
Ruthin benderfynu dymchwel y tai yn

gyfan gwbl. Dymchwelwyd y cyfan
oddigeth Rhif 51 a 52.

Bu cwpwl ifanc arall yn byw yn Rhif
51 - Bodfean House, sef Hugh
Roberts a Nellie ei briod. (Hugh mab
William Roberts, Y Garth). Bu iddynt
ddau o blant, bachgen a merch,
Walter ac Enfys.

Yn ddiweddarach prynodd y
diweddar William Parry Rhif 51 a Rhif
52 a'u gwneud yn un tŷ helaeth, ac
mae ei ferch yn byw yno heddiw
gyda'i phriod a thri phlentyn.

Felly, gallaf eich sicrhau fod Bodfean
House yn dal ar ei draed o hyd yn
gartref cysurus a diddos.

Kate Amelia Williams,
Stryd Turner,
Llanberis.

Annwyl Olygydd,

Tybed a fyddai o unrhyw
ddiddordeb i ddarllenwyr Eco'r
Wyddfa wybod am y wobr gyntaf gefais
yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen fis
Tachwedd y llynedd.

Rwyf yn un o Lanrug, wedi byw yno
yn ystod fy mhientyndod nes im orfod
mynd i Fethesda yn y tridegau fel
athrawes ysgol - ac yn awr wedi
ymddeol. Testun y gystadleuaeth i rai
dros 60 oedd casgliad o chwaraeon yn
ystod fy mhientyndod.

Anfonwyd ataf wedi ennill o Sain
Ffagan Caerdydd a gofyn a wnawn
ganiatáu iddynt gael casgliad fel adran
o Llen Gwerin Cymru. Anfonais y
casgliad iddynt i wneud ffoto-copi
ohono.

Wel rwan chwaraeon ydynt o'r rhai
'rwyf yn gofio i ni eu chwarae yn ardal
Ceunant a Than-y-coed. Bŵm yn
blentyn yn Hafodlas Ceunant yn
mynychu ysgol babanod yn Festri
Capel Ceunant - wedyn yn 8 oed
euthum i ysgol Bryn Eryr. Cewch fwy o
fanylion gan fy mrawd Robert
Williams, Llain Gwta os y byddwch
eisiau.

Yn gywir
(Miss) Mary Williams,
3 Bro Syr Ifor
Tregarth
Bangor.

GWASANAETH CANMLWYDDIANT

Annwyl Olygydd,

Manteisiad ar y cyfle hwn i ddiolch

i chwi am eich parodrwydd i gyhoeddi
manylion ynglŷn â'r Gwasanaeth
Canmlwyddiant a gynhaliwyd yn
Eglwys y Santes Helen yn ddiweddar.
Diolch hefyd i'r ardalwyr am eu
cefnogaeth, 'roedd gweld cynifer yn y
Gwasanaeth yn galonddid i'r offeiriad
plwyf ac i'r ffyddloniaid.

Yn ystod y Gwasanaeth, cafwyd
pregeth amserol gan y Tra Pharchedig
J. Ifor Rees, Deon Cadeirlan Bangor.
Cawsom anogaeth ganddo i adeiladu ar
y sylfeini cadarn a osodwyd gan ein
cyndadau. Gwiredwyd y ddelwedd
hon yn naturiol gan blant a phobl ifanc
yr Eglwys yn y pasiant a berfformwyd
yn ystod y Gwasanaeth. Diolch i'r plant
am eu ffyddlondeb syml a'u mynegiant
clir a naturiol o bwysigrwydd y
Canmlwyddiant.

Gobeithiaf a gweddïaf y bydd
gweithgareddau Canmlwyddiant yr
Eglwys yn gyfle i Eglwyswyr y plwyf
ailafael ar ddisgyblaeth a ffyddlondeb
a thyfiant Eglwysig. Cofiw'n mai
esgeulustod sy'n peri i adeilad
ddymchwel i'w sylfaen.

Gan ddiolch i'r Eco ac i'r
ardalwyr.

Yr eiddoch yng Nghrist Iesu
Y Pharchedig Aled Edwards,
Ficer Penisa'rwaun.

OES CYFEILYDD AR GAEL?

Os ydych yn gyfeilydd ac heb
ddim i'w wneud ar nos lau o
bob wythnos yna'n sicr
buasai Côr Bro Infryn yn falch
o'ch cwmni. Os yw'r gallu
gennych hefyd i ganu'r organ,
wel da chi, cysylltwch â'r
arweinydd yn syth!

Cynhelir yr ymarferion bob nos
lau rhwng 7.15 a 9 o'r gloch yn Ysgol
Llandegai.

Yn ystod y flwyddyn bydd y côr yn
canu mewn dau gyngerdd yn Eglwys
Gadeiriol Bangor gyda Chôr Bro
Cefni a Chôr Meibion Maelgwn.
Perfformir y Croeshoeliad gan John
Steiner ganddynt ym Methesda a
Biwmares. (Mae'r cyn-gyfeilydd am
gyfeilio i'r ddau yma.)

Ym 1981 aeth y côr i'r Royal
Albert Hall yn Llundain fel rhan o'r
cyngerdd Mil o Leisiau cymysg o
Gymru. Bwriedir cynnal taith i'r
cyfandir yn y dyfodol.

Os oes diddordeb gennych mewn
cyfeilio i'r Côr yna cysylltwch â'r
Arweinydd James Griffiths,
FLCM., Pen-y-Bryn, Waen-Wen,
Glasinfryn, Bangor. (Ffôn Bangor
52966).

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

DEINIOLEN

Gohebydd: Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Llanberis 870267). **PWYLLGOR BRENHINES Y CARNIFAL** – Unwaith yn rhagor mae pwyllgor y carnifal yn barod i ddewis brenhines newydd a'i gosgordd am y flwyddyn 1983. Bydd noson goffi yn cael ei chynnal yn Ysgol Gwaun Gynfi ar Fawrth 25.

Oed fel a ganlyn:
Brenhines – Dosbarth 4. **Dwy gosgordd (Escort)** – Dosbarth 3. **Coron gludwr (Crown bearer)** – Dosbarth 1-2. **Arglwyddes Gweinydd (Lady in Waiting)** – Dosbarth 1, 2 a 3.

Enwau i un o'r rhai canlynol gyda 50c – Gloria, Yvonne, Joyce, Pam, Hilda, Rhian, Jennie Wyn, Ella.

Gall unrhyw eneth o'r oedran yma ac yn byw yn Neiniolen ond ddim yn mynd i Ysgol Gwaun Gynfi roi ei henw.

DYMUNA Mrs C.J. Jones, 33 Hafod Olau, ddiolch o galon am y llun cardiau a'r cydymdeimlad a dderbyniodd ar achlysur o golli ei hannwyl chwaer ar ôl gwaeldd hir, Mrs Mary Ellen Thomas, Penlan. Llauer o ddiolch hefyd i'r staff yn ysbyty Bryn Seiont am eu gofal a'u caredigrwydd tuag ati.

PLAID CYMRU – Cyfarfu pwyllgor y gangen yn 6 Tai Glyndŵr nos Fercher Chwefror 9. Adroddwyd bod y noson Cawl a Chân wedi gwneud elw o £77 a diolchir i'r pentrefwyr am eu cefnogaeth. Cafwyd adroddiad hefyd o'r pwyllgor etholaeth, a gyfarfu ym mis Ionawr. Bwriedir cynnal noson Gŵyl Ddewi'r gangen yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug nos Sadwrn Chwefror 26.

Enillwyr Clwb 100 mis Ionawr – £10, rhif 14, Mrs Meira Jones, 1 Pentre Helen, £8.50, Rhif 57, Mr Glyn Edwards, Gerlan, Clwt-y-bont.

Enillwyr mis Chwefror oedd – £10, rhif 39, M.M. Jones, 22 Stryd Fawr, Caernarfon, £8.50, rhif 49, Mr O. Glyn Jones, 1 Tŷ'r Faenol, Clwt-y-bont.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Chwefror 7 pryd y llywyddwyd gan y llywydd a ddarllenodd y llythyr misol. Darllenwyd y cofnodion gan yr Ysgrifennydd a darllenodd y cofnodion o'r ffederasiwn yng Nghaernarfon ar Ionawr 29. Y gŵr gwadd oedd Mr Emrys Evans, Llanrug yn sgwrsio a dangos ffilmiau ar addurno Ffynhonnau. Cawsom noson ddifur iawn yn ei gwmni ef a Mrs Evans. Diolchwyd iddo gan Mrs Rita Jones a Mrs J. Eirlys Williams. Enillwyd y raffl hefyd gan Mrs Rita Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Thomas, Mrs H.J. Thomas a Miss Nancy Roberts. Cafodd Miss Beti Williams ei dewis i fynd i AGM yn Llundain a'r Fehefin 2. Croesawyd

Mrs Gwen Hughes, Gwyndy, Rhiwen yn ôl ar ôl bod dan driniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon a Mrs J.E. Williams ar ôl ei damwain.

PRIODAS – Ddydd Sadwrn, Ionawr 15 cynhaliwyd priodas Miss Helen Lewis, 12 Cil Coed, Caernarfon a Mr Leonard Parry, 13 Hafod Olau, Deiniolen. Fe'u priodwyd yn Eglwys Llanbeblig Caernarfon gyda'r Parch Trefor Jones yn gwasanaethu. Miss Annette Bryn Roberts, Dinorwig oedd yr organyddes.

Y gwas priodas oedd Mr Gwyn Parry, BA., cefnder y priodfab. Y morynion oedd Lynda Parry a Glenda Parry, chwiorydd y priodfab a Lynne Parry cyfnither y priodfab. Yr ystlyswyr oedd Mr John Lewis, brawd y briodferch a Mr Geraint Parry, brawd y priodfab. Rhoddwyd y briodferch i ffwrdd gan ei thad. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Bron Eryri Llanberis gyda 57 o westeion yn bresennol. Gwnaethpwyd y deisen briodas gan Mr Tommy Parry ewythr y priodfab. Fe fydd y ddau newydd-briod yn byw yn 1 Tai Gwledfa, Deiniolen.

Y SEINDORF – Enillwyr Clwb 200 Chwefror – 1. £25, rhif 92, Mrs M. Owen, 76 Pentre Helen, 2. £15, rhif 147, Mrs Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, 3. £5, rhif 34, Mrs Mair Owen, Fyrnwy House.

Ar nos Sul Mawrth 6 bydd y Seindorf mewn cyngerdd yn Theatr Gwynedd, gyda Chôr Caernarfon a doniau eraill.

GYRFA CHWIST – Nos Fercher, Chwefror 16 cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn y Ganolfan gyda'r elw tuag at Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan. Mr Meirion Jones, Minafon oedd wedi ei wahodd i fod yn Fiestr y Seremoni am y noson, ond oherwydd anhwylder iechyd, cymerwyd ei le ar fyr rybudd gan Mr Arthur Owen a fu'n gyfrifol bod popeth yn symud yn hwylus. Mae'r pwyllgor yn ddyledus i nifer o garedigion am iddynt gyflwyno'r oll o'r gwobrwyon yn rhad ac am ddim. Dengys rhestr isod yr enillwyr bod yr Yrfa wedi mwynhau cefnogaeth dda o'r pentrefi cyfagos, a diolchwyd i'r bobl rheini am wneud yr ymdrech er gwaethaf y tywydd gerwin.

Yr enillwyr oedd: **Merched** – 1. Mrs A. Hughes, Cwm-y-glo, 2. Miss Jean Hughes, Clwt-y-bont, 3. Miss Betty Williams, Deiniolen. **Booby** – Mrs M. Hillier, Mynydd Llandegai. **Dynion** – 1. Mrs M.L. Hughes, Y Felinheli, 2. Mr Gwilym Rowlands, Pentre Helen, Deiniolen, 3. Mr R.H. Williams, Llanrug. **Booby** – Mr Phil Lea, Llanrug. Enillwyr y raffl oedd Mr W. Orwig Williams (Tegan meddal), Mr Owie Gibson (ffrwythau) – y ddau o Ddeiniolen.

CLWB ELIDIR – Cafwyd y te cyntaf o'r Clwb Elidir am 1983 pnawn ddydd Mawrth, Chwefror 22. Daeth nifer da iawn ynghyd. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Megan Morris Dinorwig yn absenoldeb y llywydd Mrs Marren. Dymunwyd gwellhad buan i lawer o aelodau sydd yn wael, ac wedi methu presenoli eu hunain,

cydymdeimlwyd â Mrs Mary Griffith, Pentre Helen ar golli ei chwaer yn sydyn, yn Birmingham. Bydd y te nesaf ar Fawrth 8. Dyma'r rhai fydd yn rhoi'r te y tro nesaf – Mrs J. Evans, Rhydfadog, Mrs Mary Hughes, Rhydfadog, Mrs Ruth Williams, Hafod Oleu, Mrs Nancy Thomas, Pentre Helen.

BARGEN DINORWIG

– PASIANT CYMDEITHAS Y GRONYN GWENITH

Yn gymdeithasol, y pasiantau a berfformiwyd gan aelodau Cymdeithas y Gronyn Gwenith yn Theatr Seilo, Caernarfon yw rhai o'r pethau mwyaf llwyddiannus i ddigwydd yn y dre ers blyneddau lawer.

Ym 1977 y sefydlwyd y Gymdeithas, a *Bargen Dinorwig* yw y pasiant diweddaraf sydd i'w gyflwyno yn y Theatr, Mawrth 22-26 1983 am bum noson yn olynol. Hwn fydd y chweched cyflwyniad o eiddo'r Gymdeithas.

Arfer y Gymdeithas yw comisiynu awdur i sgrifennu sgript wreiddiol, yn arbennig i Gymdeithas y Gronyn Gwenith, flwyddyn neu well ymlaen llaw. Awdur *Bargen Dinorwig* yw Emyr Jones, Prif Lenor ac awdur *Canrif y Chwarelwyr*. Ysgrifennodd sgript arbennig o lwyddiannus yn portreadu bywyd chwarelwyr Arfon dros gyfnod o gan mlynedd a hanner. Ceir cip ar y llon a'r lleddf, y crefyddol a'r amrwd, y tlodi a'r llwyddiant ym mywyd y chwarelwyr a'u teuluoedd, ac enghreifftiau o'u diwylliant yn llenyddol a cherddorol, a gwleidyddol wir.

Aelodau o gapeli'r Hen Gorff yn y dref yw aelodau'r Gymdeithas a hwy fydd yn perfformio – gryn 80 o gwmni!

Gwneir yr holl waith cynhyrchu a chyflwyno gan aelodau'r Gymdeithas gydag Edwin Williams, am y drydedd waith yn olynol, yn gyfarwyddwr yngynghorol.

Rhan o lwyddiant y Gymdeithas yw medru denu cynulleidfia o bob rhan o Ogledd Cymru. Yn wir, mae gennym bellach, bobl sy'n gwneud pererindod blynyddol i Gaernarfon i weld pasiantau y Gronyn Gwenith.

Os dymunwch wybodaeth bellach cysylltwch ag Awdur y Sgript, Emyr Jones (Ffôn 4624) neu â Threfnydd Perfformiadau, Gwilym Jones (Ffôn 2091).

Bydd y pasiant o ddiddordeb arbennig i ni yma ym mro'r Eco. Maer nifer o'r golygfeydd wedi eu lleoli yn yr ardal e.e. y cloddio cynnar ar lethrau Elidir, Craig yr Undeb, sgolarship i Ysgol Brynrefail; a cheir portreadau o gymeriadau megis

Dewi Arfon, Glan Padarn, Elidirfab, Twm Bach Mericia ac eraill.

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

CYMDEITHAS UNDEBOL LENYDDOL – Nos Iau, Chwefror 3 oherwydd atgyweiriadau i'r Ganolfan cynhaliwyd y Gymdeithas yn Festri M.C., Dinorwig. Daeth cynulliad da i wrando ar Mrs M. Ellingsen, Bethesda yn sgwrsio a dangos ffilmiau ar wlad Norwy. Cafwyd sgwrs ddiddorol. Llywyddwyd y cyfarfod a chyflwyno y siaradwraig i'r aelodau gan Mrs Megan P. Morris, Minffordd. Cafwyd trafodaeth wedi'r sgwrs ac atebwyd nifer o gwestiynau gan y siaradwraig. Talwyd diolch gan Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir.

Nos Iau, Chwefror 17 cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan. Roedd y noson yng ngofal Miss Catherine Lloyd Williams, Porthaethwy. Cafwyd sgwrs ac arddangosiad o ffilmiau ganddi am ei gwyliau ym Morocco. Mwynhawyd y noson yn fawr. Bu trafodaeth gan yr aelodau ar y sgwrs. Llywyddwyd y cyfarfod a chyflwyno'r siaradwraig i'r aelodau gan Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir. Talwyd diolch gan Mrs Irene Morris, 11 Maes Eilian.

CROESO GARTREF – Croesewir adref Mrs Edith Griffith, 8 Bro Elidir wedi triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Da deall ei bod yn gwella.

DIOLCH – Dymuna Mrs Maggie Evans, Dublin House ddiolch o galon i'r teulu ei chymdogion a'i chyfeillion am y cardiau a phob dymuniad da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd ar Chwefror 10 yn 85 mlwydd oed. Diolch yn fawr.

Dymuna Kelvin a Siân ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau a'r anrhegion gwerthfawr a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad.



SIOP AMAN Stryd Fawr

DEINIOLEN Ffôn: Llanberis 871210

Mae'r siop yn awr ar ei hail flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth

06190 – O CHWECH I NAW DEG!



**Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
DYFRIN
Y
DEWIN**

PLE BUOST TI NEITHIWR, FAB ANNWYL DY FAM?

PENNOD 2

TRA roedd hyn yn digwydd i Gareth, roedd Sam yntau mewn helbul â'r cipar. Fe welai nad oedd obaith iddo fo ddianc yr un ffordd â Gareth, gan fod y cipar rhyngddo a'r lan. Felly trodd a phlymiodd i ddŵr Llyn Felin, a nofio'n gryf am yr ochr bellaf. Doedd dim gobaith gan y cipar i'w ddal bellach, ac eisteddodd Sam ar geulan yr afon a gwylio lamp y cipar yn symud yn araf a gofalus i lawr hyd ochr yr afon.

"Mae'n siŵr mai chwilio am Gareth mae o," meddylodd Sam. "Gwell i mi ddilyn rhag ofn y bydd angen help arno fo."

Dilynodd y cipar ar yr ochr arall i'r afon nes cyrraedd gyferbyn â hen waliau'r felin. Roedd yr afon yn culhau yma, ac yn disgyn yn chwynn mewn rhaeadrau bychain dros y creigiau ysgithrog. Gwaith hawdd i Sam fyddai croesi'r afon yma gan neidio o garreg i garreg; ond i'r anghyfarwydd, byddai'n antur beryglus dros ben; golygai un cam gwag godwm ar y creigiau geirwon islaw, a'r dŵr yn berwi'n chwynn rhyngddyn nhw.

Uwchben y rhaeadr, gwyliai Sam y cipar yn fflachio lamp o gwmpas yr hen felin, ac er ei bod hi'n noson o haf, dechreuodd grynu yn ei ddillad gwlyb. Yn sydyn, dyma waedd o gyfeiriad y felin, a sŵn cyffro. Gwelai'r fflach o'r lamp yn neidio a dawnsio fel pe bai'r cipar yn ymladd neu'n ceisio rhedeg. Distawodd y gweiddi, ac ymhen ychydig funudau, roedd pob man yn dawel â'r bedd, heblaw am

sŵn yr afon oedd yn corddi oddi tano. A doedd dim golau o fflachlamp y cipar i'w weld rŵan chwaith.

Bu Sam yn meddwl am ychydig cyn penderfynu beth i'w wneud. Yn ôl pob tebyg roedd rhywun wedi ymosod ar y cipar. Os felly, tybed a oedd ei gyfaill wedi disgyn dan ymosodiad o'r fath? Roedd Sam bellach wedi anghofio ei ddillad gwlyb a'r oerfel, a chan gamu'n ofalus o garreg i garreg, dechreuodd groesi'r afon. Wedi cyrraedd yr ochr draw yn ddiogel, aeth draw at y man lle roedd y ffos o'r felin yn rhedeg i'r afon. Gollyngodd ei hun yn araf i lawr i'r ffos, a cherddodd at geg y twnnel. Yna mentrodd i mewn.

Roedd hi'n dywyll fel y fagddu, a'r waliau llaith yn gyrru iasau oerion i lawr ei gefn nes gwneud i'w ddannedd rincian yn ei geg. Ymlaen yr âi Sam yn ei gwrcwd rhag taro'i ben yn y to, ond o'r diwedd, daeth golau egwan, llwydaidd i'w olwg, ac fe wyddai ei fod yn nesu at derfyn y twnnel.

Clywai leisiau, ac o wrando'n ofalus, dealodd Sam fod dau ddyn allan ger y twnnel, ac un arall i mewn yn y felin yn gwylio dros y carcharorion.

"Dyna dri, felly," meddyliai Sam. "Pa siawns sy gen i yn erbyn tri o ddynion?" A pham yn enw rheswm roedd Gareth a'r cipar yn garcharorion ganddyn nhw?

Tra roedd Sam yn pendroni beth i'w wneud, daeth y lleisiau'n nes ac ymwithodd Sam yn ôl gymaint ag y gallai i'r rhedyn a'r drain a guddiai geg y twnnwl. Dealodd oddi wrth y sgwrs mai allan yn potsio oedd y dynion hefyd, ond eu bod nhw'n defnyddio ffrwydradau. Damwain anffodus oedd iddyn nhw a'r cipar ddod i gwrdd â'i gilydd, ac erbyn hyn roedd pethau'n mynd o ddrwg i waeth. Yna, symudodd y lleisiau i ffrwrdd i gyfeiriad yr afon. Roedd

y potsiars yn mynd i osod y ffrwydradau!

Ychydig o amser oedd gan Sam, felly, i achub ei gyfaill a'r cipar cyn i'r potsiars ddychwelyd; ond roedd un ohonyn nhw yn yr hen felin o hyd. Cofiodd Sam fod hen risiau yn arwain i lofft yr hen felin, a dechreuodd ymgripio'n araf tuag atyn nhw o gefn yr adeilad. Dringodd yn ofalus a chamu i mewn drwy'r ffenest doredig. Roedd hi'n dywyll iawn y tu mewn, a dim ond ychydig oleuni yn treiddio i fyny trwy graciau yn y llawr o'r stafell islaw, lle roedd Gareth a'r cipar yn garcharorion.

Chwiliodd Sam o'i gwmpas am y drws oedd yn arwain i'r llawr, ac wrth wneud, bagiodd ar draws rhywbeth caled. Plygodd i lawr a theimlo o gwmpas a darganfod sach yn llawn o offer rhydlyd.

"I'r dim," meddylodd.

Yn araf agorodd o'r drws i'r stafell islaw, ac edrych i mewn.

YN Y SŴ

O	L	R	O	M	L	M	P
D	W	E	L	E	R	W	T
U	R	E	M	D	L	N	O
D	T	A	I	E	A	C	R
F	C	E	P	F	R	I	A
I	N	A	I	W	T	H	O
L	U	L	R	G	E	D	I
N	E	C	A	W	R	L	N

Eliffant, Llewpar, Teigr, Mwncïod, Camel, Neidr, Paun, Morlo, Parto, Carw, Epa, Arth, Llew, Udfil.

Mae'r anifeiliaid a'r adar hyn i gyd i'w cael yn y sw – ac yn y sgwâr uchod. Ar ôl eu darganfod i gyd, bydd 7 llythyren yn weddill. Mae'r rhain yn rhoi enw aderyn â phig od o fawr. Beth ydyw?

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Llanberis 872236



AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG**

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgryn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

YSGOL BRYNERYR, LLANRUG



Dosbarth yn Ysgol Bryneryr, Llanrug, tua 70 o flynyddoedd yn ôl. Anfonwyd y llun gan Mr T.W. Thomas, Berwyn, Llanrug. Mae yn y llun — y trydydd o'r dde yn y rhes flaen, gyda'i ddau frawd. Oes rhywun a all enwi gweddill y disgyblion?

Stryd Goodman, Llanberis

Pa 'Goodman' sy'n cael ei gofio yn enw'r stryd hon?

Mae traddodiad yn nodi mai gŵr o'r enw William Goodman a roes ei enw i'r stryd hon. Ganed William Goodman ym Mhwlheli yn 1745 a dywedir ei fod yn hanu o deulu'r Gwynfryn, Pwllheli, a theulu Methlem, Aberdaron. Dysgodd grefft crydd, ond yn fuan wedi hynny, cofrestrodd ar long ryfel. Fe'i anafwyd, a dychwelodd i Llangian lle priododd â gwraig o'r enw Lowri Parry. Oherwydd i'w tŷ yn Llanbedrog (lle o'r enw Y Foel) losgi, daethant i fyw i Lanberis. Adeiladodd William Goodman ddau dŷ yno, ac felly y dechreuodd Stryd Goodman. Bu wedi hynny yn cadw ysgol yn Llanarmon, Y Garn, Y Wiga a Llangystenyn. Bu farw yn Llangian yn 1829 ac fe'i claddwyd ym mynwent y Capel Newydd.

Pa reswm oedd gan William Goodman dros symud i Lanberis, ac o ble cafodd y modd i adeiladu dau dŷ yno? Pa bryd y bu hyn ac am ba hyd yr arhosodd yno? A oedd cysylltiadau teuluol ganddo â'r

ardal?

'Rwyf eisoes wedi sgwennu i Llanw Llŷn ynglŷn â William Goodman, rhag ofn fod rhai o'i ddisgynyddion yn byw yn ardal Llangian heddiw. Siawns na chawn wybodaeth ynglŷn â'r dyn ei hun os nad ynglŷn â'i dai yn Lanberis.

Posiblwydd arall, wrth gwrs, yw mai coffáu'r Esgob Godfrey Goodman a wna enw'r stryd. Bu Godfrey Goodman yn llochesu yn y Tŷ Du, Lanberis yn ystod y blynyddoedd 1643-1647 oherwydd ei wrthwynebiad i bolisi crefyddol Siarl I a'r honiadau o Babyddiaeth yn ei erbyn. Tybed a adeiladwyd Stryd Goodman ar dir a oedd ar un adeg yn eiddo i Tŷ Du, stâd Godfrey Goodman?

**Cefnogwch
Ein
Hysbysebwy**

WAUNFAWR

Gohebydd : Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626).

CYDYMDEIMLWN — yn fawr iawn â Mr I. Jones, a'r teulu Argraig, Stâd Tŷ Hen ar eu profedigaeth lem o golli gwraig a mam yn frawychus o sydyn, a hefyd â Mr W. Jones, Graianfryn ar golli tad.

ADREF O'R YSBYTY — Da yw deall bod Mrs Jones, Penrhos, Mrs T. Jones, Benallt, Mrs Williams, 1 Ael y Bryn a Mr W.T. Owen, Noddfa yn gwella ar ôl eu harhosiad yn yr ysbity.

YN YR YSBYTY — Drwg gennym glywed bod Mr Gwyn Hughes, Bro Waun wedi ei gipio yn ôl i'r ysbity a chael triniaeth lawfeddygol brys. Hefyd Mr Goronwy Jones, Treflys sydd unwaith eto yn ôl yn yr ysbity. Mae Mrs Greta Hughes, Tref Eilian hefyd yn yr ysbity ac anfonwn ein cofion cynhesaf atynt am lwyr wellhad buan.

LLONGYFARCHIADAU — i Ian Wyn Williams, Coed Gwydryn a Fiona Johnstone, Tŷ Gwyn ar gyrredd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR — Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am lonawr a dynnwyd gan aelodau'r Aelwyd: 1 — £40, Anne Roberts, Fron Olau; 2 — £25, Catherine Bracegirdle, 21 Tref Eilian, 3 — £10, Morus Elfryn, Llwydiarth.

Enillwyr Chwefror, 1 — £40, Mrs M. Jones, Graianfryn, 2 — £25, Mrs Alice Johnstone, Tŷ Gwyn, 3 — £10, Mr Alun Williams, Fron Goedog.

MERCHED Y WAWR — Nos lau, lonawr 27 cafwyd noson ddiffr dros ben gyda Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed yn dangos ffilmiau ar Awstralia.

Y llywydd oedd Mrs Irene Roberts, gyda Mrs Rhian Ellis a Mrs Beryl Lloyd Jones yn gofalu am y te.

Rhodddwyd y diolchiadau gan Mrs Sylvia Prys Jones, Mrs Katie Wyn Jones a enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs Iona Jones. Gwnaed elw o £13.74 ar y stondin Moes a Phryn a diolch am bob cyfraniad.

YR URDD — Daeth Mrs Mary Vaughan Jones i'r cyfarfod cyntaf o'r Urdd eleni i roi sgwrs ddiffr iawn i'r plant ar ei thaith i Awstralia ac i ddangos sleidiau iddynt. Hefyd ym mis Ionawr, daeth Mr Gwyndaf Jones, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd yng Ngwynedd draw i siarad â'r plant gyda chymorth ffilm ac i'w cynghori.

Ym mis Chwefror cafodd yr aelodau fynd i'r Bontnewydd ar wahoddiad yr adran bentref sydd newydd ei sefydlu yno i gymryd rhan

mewn cwis.

Ar wahân i'r cyfarfodydd wythnosol hyn, mae'r plant yn dod at ei gilydd yn gyson i baratoi ar gyfer yr Eisteddfod Gylch. Fe'i cynhelir yn ysgol Syr Huw Owen, Mawrth 5, a darperir bwyd yno ar gyfer y cystadleuwyr am 50c.

Ar fore Sadwrn Chwefror 19 cafwyd bore coffi ym Mlaen y Nant, cartref Mrs Ann Marston i godi arian i'r adran. Yn ystod y bore clywyd y ddau barti recorder a fydd yn cystadlu yn yr eisteddfod yn perfformio. Pob lwc iddynt ac i bawb arall sy'n cystadlu. Gwnaed elw o £47 yn y bore coffi, a hoffai'r pwyllgor ddiolch yn gynnes iawn i Mr a Mrs Marston am gynnal y bore coffi ac am eu croeso.

CAPEL BETHEL — Cynhelir Eisteddfod yr Ysgol Sul a'r Gobeithlu yn festri'r capel uchod nos Fawrth, Mawrth 29. Mae'r rhestr testunau ar werth yn y Post a'r Becws — pris 5c.

Cynhelir Arholiad Ysgrifthurol yr Eisteddfod yn y Festri pnawn Sul, Mawrth 6 am 2 o'r gloch.

CLWB CANT PLAID CYMRU — 1. Iris Owen, Tŷ Capel; 2. Gillian Wyn, Y Frenni, 3. M.B. Davies, Bryn Eithin.

DIOLCH — Dymuna Beryl a Gareth, Brithdir, Llanbedrog, (gynt o 9 Bryn Golau) ddiolch i'w perthnasau, cyfeillion a staff cegin yr ysgol am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Enlli.

GWELLA — Dymunwn adferiad buan i Joanna Marsden, Blaen-y-Nant sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:
LLANBERIS 872285
NEU 871327

CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Gontract

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

LLONGYFARCHIWN rhai o ferched y pentref ar eu llwyddiant yn ennill y darian yn Eisteddfod Ffug Eco'r Wyddfa. Diolch hefyd i'r rhai hynny a fu yn eu hyfforddi.

Llongyfarchwn hefyd Eleri Morris, Weirglodd Goch ar ei dyweddïad.

DYMUNWN wellhad buan i Gwynfryn Williams, Trem Cynfi. Mae wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Dewi Sant, Balch ydym o glywed fod Mr Nathan Jones a Mr William J. Jones, wedi dod adref o'r ysbyty a dymunwn wellhad buan i Mrs Pat Jones, 1 Tai Arthur, Waen.

CYDYMDEIMLIR - â Mrs Sally Griffiths, 16 Bryntirion ar farwolaeth ei brawd yn Rhostrehwfa, Llangefni. Fe gollodd Mrs Glenys Williams, Trem-gynfi a Mrs A. Thomas, Tai Arthur eu cefndryd yn ddiweddar, ac fe gollodd Mrs S. Williams, Cae Howell a Mrs P. Williams, Llys y Gwynt berthnasau agos.

DIOLCH - Dymuna Mrs G. Lewis, 6 Llys y Gwynt ddiolch i'w ffrindiau ymhell ac agos am y cardiau a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

A hefyd dymuna Mrs M. Adlam, 14 Bryntirion a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli ei chwaer, y ddiweddar Mrs Catherine Watson.

CLWB YR HEULWEN - Bydd y clwb

yn dechrau ddydd Mawrth, Mawrth 15 am hanner awr wedi un. Croeso i bawb.

LLONGYFARCHWN Mr Douglas Jones, 6 Tai Arthur ar basio ei City and Guild mewn plymio.

CLWB Y MERCHED - Cafwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn nos Fawrth, Chwefror 22. Y wraig wadd oedd Miss P. Ellis, Rhos Fair a rhoddodd dipyn o hanes ei gwyliau yn yr Eidal a dangosodd sleidiau. Diolchodd Mrs E. Porter iddi. Rhoddwyd y te gan Mrs M. Williams a Mrs A. Jones ac fe enillwyd y raffl gan Mrs M. Davies.

DIOLCH - Dymuna Mrs I. Griffith a'r teulu, 5 Bryn Tirion, ddatgan eu diolch i'w perthnasau, ffrindiau a'u cymdogion am eu caredigrwydd a'u negesau o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl. Hefyd hoffwn ddiolch yn arbennig i'r meddyg teulu, Dr N. Marren, ac i'r Parchedig Aled Edwards B.A.

LLONGYFARCHIADAU i Ian Jones, Hendre Newydd, Glasgoed ar gael ei ddewis yn aelod o dîm nofio Ysgolion Cymru, fydd yn cystadlu yn Cork, Iwerddon, yn ystod y mis.

TOCYNNAU MANTAIS BWS - Bydd y tocynnau yn cael eu dosbarthu yn y Neuadd, ddydd Mercher, Mawrth 9, rhwng 10 ac 11 o'r gloch yn y bore.

EISTEDDFOD Y PENTREF - Cofiwch am ddydiad yr eisteddfod, sef Dydd Gwener Mai 20, yng Nghapel Glasgoed.

YSGOL SUL, EGLWYS Y SANTES HELEN (1912-13??)



Rhes ôl: William Lewis, Pen Graig; Edward Roberts, "Rhendre"; Ifan Hughes, Bryn Ffynnon.

Rhes Flaen: William Lewis, Bryn Madog; Thomas Jarvis, Pen y Graig; Richard Thomas, Tan-y-Coed; Robert Williams, Talsarnau; John Thomas, Tan Coed.

GWASANAETH SUL Y FAM

Plwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun

Bydd tair Eglwys y fywoliaeth yn uno am 10.30 ar fore dydd Sul y 13eg o Fawrth, yn Eglwys Crist Llandinorwig, i addoli mewn Cymun Teuluol. Plant yr Eglwys fydd yn bennaf gyfrifol am y Gwasanaeth arbennig hwn ar Sul y Fam.

Rhoddir cerdyn Sul y Fam i bob plentyn yn ystod yr addoliad. Gellir eu lliwio a'u cyflwyno i'r mamau wedi'r Gwasanaeth. Estynnir croeso cynnes i unrhyw un a ddaw i'r Gwasanaeth.

Cyhoeddir manylion am drafnidiaeth y dydd maes o law yn y dair Eglwys. Gobeithiaf eich gweld yno. - Y Ficer.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

Dydd Gwener, Chwefror 18 bu farw Mr Gwilym Williams, Ddôl Bach yn 55 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'i briod a'i ddau fab a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn.

Da gennym ddeall fod Mrs Megan Williams, Dwyfor yn gwella ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Bwth Caernarfon. Wedi gadael yr ysbyty treuliodd Mrs Williams ysbaid gyda'i mab a'i merch yng nghyfraith yn y Groeslon, ond erbyn hyn mae yn ôl yn ei chartref. Gwellhad llwyr a buan iddi.

Y mae Mr Richard Jones, Min y Parc yn Ysbyty Môn ac Arfon. Cipiwyd ef yno yn sydyn. Da deall ei fod yn raddol wella. Edrychwn ymlaen at ei weld yn ôl yn ei gartref

gyda'i deulu, a'n dymuniad yw ar iddo yntau gael gwellhad buan.

Croeso adref i Mr E. Ellis, 3 Tai Bryngwyn ar ôl gwyliau gyda'i mab a'r teulu yn Nottingham.

Er garwed yr hin na ddigalonwn - y mae arwyddion fod y gwanwyn wrth y drws. Yn gynnar yn y bore bach ddechrau'r mis - Chwefror - profiad hyfryd annisgwyl oedd clywed aderyn ar frig uchaf coeden fytholwyrdd yn canu a dal i ganu mewn gorfoledd. Profiad syfrdanol mor gynnar yn y flwyddyn - un a oedd yn galw am sefyll, ystyried a diolch.

Y mae prysurdeb mawr yn yr ardal hon y dyddiau hyn - aelodau Capel Tan-y-coed yn paratoi ar gyfer y Ffair Wanwyn a drefnir ganddynt. Cynhelir y Ffair yn Ysgol Gynradd Llanrug Mawrth 10 am 7 o'r gloch.

NEWYDDION TRIST

Brawychwyd pawb yn Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun pan ddathant yn ôl wedi hanner tymor, ar glywed fod un o'r plant, sef Melvin Cooney (7 oed), o Lanrug, wedi boddi tra ar ei wyliau yn Darwin. Bydd colled ar ei ôl, a chydymdeimlwn â'i deulu yn eu galar.

LIMRIC YN CYNNWYS Y GAIR DŴR

Dim ots gennyf i gael fy rhegi, Fy mygwth, na'm galw yn gachgi,

A'r streic yn swyddogol,

Caf gyfle rhagorol

Heb ddŵr, - i anghofio ymolchi.

Ann Ifans, Penisarwaun.

CWM-Y-GLO

CROESO ADREF - Daeth Mr E.G. Owen, Talgwynedd, gartref ar ôl triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Môn ac Arfon. Hyderwn y caiff llwyr wellhad.

MERCHED Y WAWR - Nos Fercher, Chwefror 16, cafwyd sgwrs fywiog a diddan gan Ann Llwyd am ei gwaith fel golygydd y cylchgrawn Pais. Bu yn egluro fel yr oedd yn rhaid i'r un cylchgrawn Cymraeg i ferched geisio plesio pob oed a gwahanol ddiddordebau. Diolchwyd iddi gan Mrs Margaret Williams.

Yna cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Rhanbarth gan Mrs Iris Rowlands. Rhoddwyd y te gan Mrs Vera Griffith a Mrs Verna Jones. Mrs Griffith enillodd wobr y raffl.

Nos Fercher, Mawrth 16, cynhelir noson i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda swper bwffe ac eitemau amrywiol gan yr aelodau.

CLWB POBLY CWM - Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 10fed, cafwyd pnawn diddorol yng nghwmni Mrs Eryl Roberts, Tyddyn Alys, yn egluro pwrpas ei gwaith fel therapydd galwedigaethol dan y gwasanaeth cymdeithasol. Eglurodd sut y gall addasu tai er hwylustod yr anabl, a dangosodd enghreifftiau o offer sydd ar gael i'n cynorthwyo. Diolchwyd iddi gan Mr R.H. Parry. Rhoddwyd croeso i Mrs J. Parry, Bro Rhythallt fel aelod newydd, a chydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Mr E. Watkin, Dolwen, oedd yn aelod ffyddlon o'r clwb, gan y Llywydd, Mr Llew Hughes. Rhoddwyd y raffl gan Mrs L. Evans, Gwylfa, a'r te gan Mrs J. Parry a Miss Megan Davies. Roedd pawb yn falch o weld Mr R. Roberts, Bryn Gro yn ôl ar ôl triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Môn ac Arfon.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLAU SENGL O £39 I FYNY

GWLAU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

AR AGOR
9-7pm

9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.

GWASANAETH NEWYDD

yng nghylch Eco'r Wyddfa
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd
Glanmoelyn
Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674
am fwy o fanylion



Ym myd yr adar

gyda Ieuan Williams
YN GYFFREDINOL

Mae gennyf sied yng ngwaelod yr ardd gefn. Cred rhai o'm cymdogion mai 'siambr sorri' sydd gennyf, ond gŵyr eraill nad dyna ydyw, er mae'n rhaid cyfaddef ei bod yn ddelfrydol at hynny hefyd.

Y gwir yw mai cartref fy nghyfeillion pluog yw'r sied. Ynddi magaf 'caneries', ac mae hon wedi bod yn hobi imi bron gydol fy oes. Pleser gennyf, felly, oedd cydymffurfio â golygyddion 'Eco'r Wyddfa' pan ofynnwyd imi am gyfres o erthyglau yn ymwneud â chadw adar.

Yn ddigon naturiol credaf mai cadw adar yw'r pleser gorau yn y byd, ac yn wir y mae'n un godidog, ond mae hefyd yn un llyffetheiriol. Byddaf bob amser yn pwysu hyn ar bawb sydd yn chwenychu dechrau, yn enwedig gyda phlant a phobl ifanc, gan fod yn ofynnol gofalu am bopeth byw yn feunyddiol. Ni all adarwyr, fel y gall pysgotwr, saethwr, rhedwr, stampiwr, neu arlunydd, anghofio am ei hobi hyd yn oed am un diwrnod gan y gall hynny olygu trychineb. Yn wir ar rai adegau o'r flwyddyn rhaid rhoddi oriau (yn llythrennol) ar gyfer yr adar yn ddyddiol.

Y mae amryw ohonom yn dilyn y pleser yma yn ardal 'Eco'r Wyddfa'. Yn wir, y mae sioe orau Cymru yn digwydd yn flynyddol mymryn y tu allan i'w therfynau, sef yn Y Felinheli. Tair blynedd yn ôl enillwyd y wobwr am yr aderyn gorau ym Mhrydain gan Mr Robin Owen, brodor o Benisarwaun, ond yn awr yn byw yn Rhos Isaf. 'Roedd y gystadleuaeth yng Nghaeredin.

Y mae galw mawr hefyd am nifer ohonom o'r ardal fel beirniaid ym mhob rhan o Loegr, yr Alban, a bu llawer ohonom drosodd yn ein tro yn sioeau mwyaf Iwerddon. Felly gwelwch fod ein cylch ar y map adaryddol!

Rhennir blwyddyn yn dair rhan go bwysig gan yr adarwyr, gydag amseroedd go ddiflas yn aml rhwng y cyfnodau hynny. Ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn mae bryd pob un ohonom ar fagu cywion, a phawb yn gobeithio bod cnwd eleni yn well na chnwd y llynedd. Cymer hyn (mae'n dibynnu pa adar a gedwir) o fis Ionawr hyd at fis Gorffennaf. Daw tymor y colli plu wedyn (dyma'r adeg y bydd y gwragedd yn gwylltio gan fod y plu yn cario i'r tŷ) ac ar ddiwedd dau neu dri mis o stormydd pluog, gwawrir arnom beth yw safon y cywion, ac a ydynt i fyny â gofynion 'barcudol' y beirniaid. Yna o fis Hydref hyd y Nadolig gwelir ni'n ymlwybro o neuadd i neuadd un Sadwrn ar ôl y llall gyda'n bocsus du yn cefnogi, ennill, colli a chael cam!

Tri chwestiwn cyntaf pawb sy'n



Yr awdur

darogan dechrau cadw adar ydyw: Sut le sydd angen i'w cartrefu? Beth yw'r gost? Pa adar i'w cadw?

Ateb y cwestiwn cyntaf ydyw ystafell sych gyda digon o olau naturiol. Gwelwch, felly, fod hyn yn rhoddi digonedd o ryddid dewis - gellwch gael ystafell ysblennydd yn y tŷ neu gwt di-nod yn yr ardd. Mae'n dibynnu ar amgylchiadau'r person. Nid yw'n dilyn, wrth gwrs, mai yn y palas y trigar adar gorau - yn wir, gallaf eich sicrhau mai'r gwrthwyneb sy'n wir yn aml.

Y gost? Eto dibynna ar amgylchiadau'r person. Gall ddechrau gyda'r offer angenrheidiol yn unig (gall brynu'r rhain yn ail-law yn aml) ac adeiladu'n raddol o hynny, ond fel y crybwyllais eisoes ystafell sych, ddi-ddrafft, ddylai'r nod fod ar y cychwyn. Pris adar? Maent yn amrywio yn ôl eu safon, ac yn ôl bri y gwerthwr. Gellwch brynu aderyn am £5, ond mae ambell un yn newid dwylo am filoedd o bunnoedd y dyddiau hyn.

Pa adar i'w cadw? Mae'r hobi wedi ei rhannu, mwy neu lai i bedair rhan, ac mae llawer o dynnu coes yn digwydd rhwng y bedair adran. Y bedair yw - Canaries, Budgerigars, Adar Prydain ac Adar Tramor. Byddaf yn ymdrin â'r rhain yn eu tro yn ystod y misoedd nesaf.

SONED FUDDUGOL EISTEDDFOD EGLWYSI ST PADARN A ST PERIS 1950

Ganwaith y dyddiau pell bŵm trosti hi,
Yn nwyd ieuencid a didaro hynt,
Heb weld ogoniant a heb glywed si,
Yr hesg a'r don yn chwarae yn y gwynt.
Ond gwelaf erbyn hyn ddifedur ddawn
Y llaw anfeidrol luniodd fro mor gain
O sisial ddŵr a chraig, o rug a mawn,
O laswellt i'r choed, o hesg a drain
Ac os gwêl Duw yn dda, a'm rhawd ar ben
Roi o'i drugaredd imi fythol heddi,
Ni cheisïaf well paradwys yn y nen,
Na'r gornel dawel hon mor gain ei gwedd
A thremio'n hir i'r hen fynyddoedd hyn
A gweled Duw o ganllaw Pont Penllyn.

R. THOMAS, NANT PERIS

Diolch i Mr W. Jones, Poole, Dorset (gynt o'r Fachwen) am anfon y gerdd i ni.

"Gyda'n gilydd fe safwn ..."

Mewn cyfarfod hanesyddol o aelodau Cymdeithas Cydweithredol Llanrug Cyf. (Y Co-op) nos Lun, Chwefror 28ain yn Festri Capel Mawr Llanrug, penderfynwyd aros yn annibynnol, a gwrthwynebu'r anogaeth i ymuno â rhwydwaith y CRS. Ni welwyd cymaint o bobl wedi troi allan i gyfarfod cyhoeddus yn Llanrug ers blyneddodedd, ac yr oedd dros gant a hanner o bobl yn bresennol i wrando argymhellion aelodau o'r Co-operative Union Ltd; CRS Manchester, CRS Gogledd Cymru a'r CWS. Ond roedd y ddadl o'r llawr yn gryfach ar y noson, ac o bleidlais o 142 i 6, penderfynwyd peidio ag ymuno, a thrwy hynny, gadw annibyniaeth 'Co-op' Llanrug.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan Mr H.O. Jones, Cadeirydd Pwyllgor Cymdeithas Cydweithredol Llanrug ac ef hefyd a gyflwynodd y gwahanol aelodau o fudiadau cenedlaethol a rhanbarthol y Cymdeithasau Cydweithredol. Eglurodd y datblygiadau a arweiniodd i alw'r cyfarfod arbennig hwnnw.

Yng Nghyngres y Cymdeithasau Cydweithredol a'u Hundeb yn Brighton yn 1982 penderfynwyd bod angen lleihau nifer y cymdeithasau adwerthu (retail societies) i 25 mewn nifer o fewn 2 flynedd. Bwriad hyn oedd gwneud y gymdeithas yn genedlaethol ac yn rhanbarthol yn fwy economaidd. Penderfynwyd fod aelodau o'r Undeb Cyd-weithredol yn ymweld â phob cymdeithas adwerthu o fewn 3 mis i ddyddiad y Gyngres.

Ym mis Medi 1982 daeth cynrychiolaeth o'r Undeb i gyfarfod â Phwyllgor Rheoli Cymdeithas Llanrug. Yn dilyn trafodaethau pellach, penderfynodd y pwyllgor wneud cais i holi a fyddai'r CRS yn eu derbyn fel aelodau. Roedd yr atebiad yn gadarnhaol, ond yn naturiol, rhaid oedd derbyn caniatad yr aelodau yn Llanrug cyn i hynny ddigwydd. Ac felly, galwyd Cyfarfod Arbennig o'r Aelodau i drafod y penderfyniad canlynol:

"Fod y cyfarfod hwn o aelodau Cymdeithas Cyd-weithredol Llanrug Cyf., yn penderfynu trosglwyddo holl stoc, eiddo a buddiannau eraill, a holl gysylltiadau eraill y Gymdeithas i'r Gymdeithas Gwasanaethau Adwerthu Cyf. (CRS) ac mewn ystyriaeth fod y CRS yn rhoi i bob aelod o'r Gymdeithas gyfranddaliadau hafal i gyfanswm credyd pob aelod o'r Gymdeithas ar ddyddiad y trosglwyddiad."

Roedd Pwyllgor Rheoli Cymdeithas Cydweithredol Llanrug o blaid ymuno am y rhesymau canlynol:

- fod posibilrwydd i'r Gymdeithas wanhau yn y dyfodol, ac i'r CRS wrthod cais am ymuno y pryd hynny.
- mai gwella'r mudiad cydweithredol oedd bwriad y Gyngres, ac y byddai posibilrwydd iddynt golli diddordeb mewn undebau bychain fel Llanrug.
- fod pob Cymdeithas arall yng Ngogledd Cymru yn aelodau o'r CRS.
- fod ymuno â'r CRS yn sicrhau swyddi'r staff ar gyfer y dyfodol.
- fod ymuno yn sicrhau dyfodol gobeithiol i'r siop yn Llanrug.

Cynigiodd y Cadeirydd, Mr H.O. Jones, fod y penderfyniad yn cael ei dderbyn, ac eiliwyd ef gan Mr R.G. Jones, Talybont. Yn dilyn, cafwyd cyfle i drafodaeth a siawns i'r aelodau holi'r gwahanol gynrychiolwyr o'r CRS.

Y prif bryderon ymysg aelodau'r Gymdeithas oedd y wybodaeth y

byddai'r buddran blyneddol (y 'difi') yn cael ei ddileu dan y sustem newydd, ac y byddai danfon negesau i'r cartrefi hefyd yn peidio â bod. Pwysleisiwyd y byddai colli'r gwasanaeth hwn yn effeithio'n arw ar yr aelodau rheini sy'n byw ym Mhenisarwaun, Cwm-y-glo, Tan-y-coed a'r Ceunant. Yn yr un modd, byddai colli gwasanaeth o'r fath yn golled fawr iawn i'r oedranus ac i'r methodig.

Dadl arall oedd honno ynglŷn â bwriad y CRS i godi anferth o siop newydd yng Nghaernarfon, ac y byddai prisiau gostyngol yno yn arwain i'r esgus o gau'r siop yn Llanrug. Atgoffwyd y cyfarfod hefyd o'r hyn ddigwyddodd i ffatri Peblig yng Nghaernarfon - i'r ffatri gael ei chau gan y prif reolwyr o Loegr - ac y byddai rheolaeth ar siop Llanrug yn deillio'n uniongyrchol o Fanceinion pe derbynnid y cynigiad.

Anogwyd yr aelodau i wrthod y cynnig oherwydd mai siop "bentrefol, gartrefol" oedd y Co-op a'i bod yn "ffordd o fyw" i'r ardalwyr ac na ellid rhoi pris ar hynny ar unrhyw gyfrif.

Derbyniad llugoer iawn a gafodd cynrychiolwyr y CRS, ac roedd yn amlwg fod y mwyafrif o'r aelodau wedi gwneud eu meddwl i fyny cyn dod i'r cyfarfod. O'r diwedd, galwyd am bleidlais, ac etholwyd y Mri Pys Jones, Richard Evans, Arfon Jones ac Emrys Owen i fod yn gyfrifol am y cyfrif.

Pan gyhoeddwyd y canlyniad, daeth bloedd o gymeradwyaeth o'r aelodau, a chyhoeddodd y Cadeirydd na fyddai angen y cyfarfod arall a ragwelwyd i gadarnhau'r penderfyniad: roedd Cymdeithas Gyd-weithredol Llanrug Cyf, am gadw ei hanibyniaeth.

Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedodd Mr H.O. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli ei "fod yn falch iawn o'r bleidlais o blaid y siop", ac yr oedd Rheolwr y siop, Mr Dylan Hughes yn "falch iawn o weld cymaint o aelodau â diddordeb yn nyfodol y Coop"; a'i fod "ar ran y staff, yn diolch i bawb am ddangos eu hymddiriedaeth ynddynt i gario'r gwaith ymlaen."

Mae'n agos i 700 o aelodau i Gymdeithas Gydweithredol Llanrug Cyf., ac felly, dylai ei dyfodol fod yn bur sicr am flynyddoedd.

COLLI IAITH

Colli gwlad sydd anfadaith, - a'i cholli
Yw'r erchyllaf anrhaith;
Mwy im yw colli mamiaith,
Colli'r oll yw colli'r iaith.

ALAN LLWYD

LLANBERIS

DIOLCH -

Dymuna Mr a Mrs T.A. Maxwell, Argoed, Stryd Warden ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau ymhell ac agos am yr anrhegion, blodau, llythyrau a chardiau lu a dderbyniasant pan yn dathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Elizabeth Griffith, 6 Stryd Turner, ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthi tra bu'n Ysbyty Dewi Sant ym Mangor. Am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac wedi dychwelyd gartref.

Dymuna teulu'r diweddar lorwerth Roberts, 29 Maes Padarn ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob cydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl. Diolch am y llw cardiau, llythyrau a galwadau ffôn a dderbyniwyd. Diolch i'r meddygon a gweinyddesau Ward Dwyfor C & A ac Ysbyty Bryn Seiont am eu gofal a'u caredigrwydd tuag ato. Diolch hefyd i'r Parch Huw John Hughes am ei ymweliad cyson ag lorwerth tra bu'n wael.

CYDYMDEIMLAD - Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mr Owen Davies, Stryd yr Wyddfa a gollodd ei fam. Bu farw yn Ysbyty Gallt y Sil yn 88 oed.

Yn ystod y mis cafodd Mrs Celia Thomas, Ffordd Tŷ Du brofedigaeth. Bu farw ei mam yn Lerpwl. Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teulu.

AELODAU NEWYDD - Nos Sul, Chwefror 20 derbyniodd yr Athro Stanley John, Coleg Bala Bangor, Bangor bedwar o aelodau ifanc mewn gwasanaeth a chymun yn Nant Padarn. Derbyniwyd y rhai a ganlyn yn gyflawn aelodau o'r Eglwys: David Lloyd Evans, Gwesty Gwynedd, Andrew Williams, Stryd Fawr, Bethan Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch, Judith Jones, Dakota.

MARWOLAETHAU

Phyllis Mary Roberts - Ionawr 27 yn Ysbyty Minffordd Bangor bu farw Phyllis Mary Roberts, priod Mr Dafydd Tudor Roberts, Arfryn, Stryd Olgra yn 57 oed. Brodor o Fachynlleth ydoedd, ond daeth y teulu i fyw i'r ardal hon rai blynyddoedd yn ôl. Boneddiges garedig iawn ydoedd Mrs Roberts, yn fawr ei pharch gan bawb a'i hadwaenodd. Roedd yn gymydog heb ei hail yn dra chymwynasgar a theimladwy â phawb. Bu'n gyson iawn yn ei hymweladau â Chartref Pen Gwaith, a gwnaeth bopeth yn ei gallu er cysur yr henoed yno. Yn wir gellir dweud yn onest iawn amdani "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth."

Trefnwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Coch ar Ionawr 31 gyda'r Parch Trefor Lewis, Deiniolen yn gwasanaethu. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'i phriod, ei mam Mrs Elizabeth Davies, ei merch Nerys a'r teulu i gyd yn eu trallod.

Howel Morris - Yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon, Chwefror 3, bu farw Howel Morris, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch yn 80 oed. Daeth ei dad a'i fam i'r ardal i fyw o Ddeiniolen a'r plant yn ifanc iawn i gyd. Aeth ei dad i weithio fel teiliwr at y diweddar R.E. Jones, Boderwydd. Roedd nifer o blant yn y cartref a'r rhieni yn gymeriadau tawel a charedig, a thyfodd y plant yn fechgyn a merched cymwynasgar a thawel. Wedi gadael Ysgol Dolbadarn yn ifanc iawn aeth Howel Morris, fel ei frodyr i'r chwarel, ac yno y llafuriodd yn galed am 40 mlynedd. Priododd â merch o gyffiniau Llanrwst a magodd yntau nythiad o blant dymunol a fu'n ffyddlon iddo tra gallent.

Cymeriad hynod o dawel a swil ydoedd, ond roedd ganddo rhyw hiwmor unigryw, a byddai wrth ei fodd yng nghwmni plant. Ei brif ddiddordebau ydoedd garddio a helpu'r achos yng Nghapel Coch. Gwnaed ef yn ddiakon yn 1975 a gwnaeth ymdrech deg i gario'r baich yno. Roedd yn uchel ei barch gan bawb yn yr ardal. Ar ôl colli ei briod tua 3 blynedd yn ôl - a'r plant i gyd ond un wedi gadael cartref i sefydlu cartrefi eu hunain, daeth ychydig lesgeidd iddo yntau, a symudodd i fyw gyda Jane yn ei chartref lle y bu hyd y pen diwethaf, a hithau gyda'i chwiorydd a'i brodyr yn gofalu yn dynner amdano hyd y gallent.

Trefnwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Coch dan arweiniad y Parch Robert Roberts, Tregarth. Talwyd teyrnged i Howel Morris am ei ffyddlondeb a'i gymwynasgarwch gan Tom R. Jones, Stryd Ceunant, ei gyd-ddiacon, a Hugh Peris Pritchard wrth yr organ. Cynhaliwyd gwasanaeth byr ymhellach yn yr Amlogsgfa ym Mangor.

Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Jane, Beryl, Gwyneth, Beti a Huw y mab, Ellis Morris, ei frawd, Gladys Roberts, Mary Thomas a Gaynor Pritchard ei dair chwaer a W. Williams, ei frawd-yng-nghyfraith, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

DIOLCH - Dymuna teulu'r diweddar Howel Morris, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch ddiolch i bawb a fu'n gweini arno yn ei waeledd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth. Diolch am gefn ardal.

PWYLLGOR CLWB YR HENOED - Nos Fawrth, cyfarfu aelodau o bwyllgor Clwb yr Henoed dan lywyddiaeth Mrs Bryn-Hughes. Cyfeiriwyd at farwolaeth brawychus y Canon Alun Jones - a fu mor ffyddlon gyda gwaith y pwyllgor ar hyd y blynyddoedd yn ddi-ffwlch.

Hefyd cydymdeimlwyd â dwy aelod o'r pwyllgor a fu mewn profedigaeth er y pwyllgor diwethaf - Mrs Glenys Jones a Mrs Jean Roberts, y ddwy yn colli mam.

Derbyniwyd rhodd o arian sylweddol iawn gan Mrs Rhianwen Griffiths, merch y ddiweddar Mrs Margaret Roberts, Maes Padarn fel gwerthfawrogiad o waith y pwyllgor.

Deillir fod Mrs Enid Roberts, Maes Padarn yn Ysbyty Môn ac Arfon yn derbyn triniaeth llawfeddygol.

Trefnir y cinio i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria am 12.30 ddydd Iau Mawrth 3. Dylai'r enwau ddod i law ar unwaith.

PRIODAS RUDDER - Llongyfarchiadau i Bessie a Hugh Peris Pritchard, Dinorwig House ar ddathlu eu priodas ruddem ddechrau'r flwyddyn yma.

UNDEB Y MAMAU - Chwefror 1 cyfarfu aelodau eglwys Nant Peris a Sant Padarn o Undeb y Mamau dan lywyddiaeth y Parch A.W. Cherry. Cynhaliwyd y pwyllgor blynyddol pryd y cafwyd adroddiadau ffafriol iawn gan yr ysgrifennydd a'r trysorydd. Ailetholwyd y swyddogion sef Mrs Denness Hughes a Mrs Glyn Williams ac ar ymddeoliad Mrs Eric Owen etholwyd Mrs Betty Humphreys yn gofrestrydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Muriel Morris, Mrs Audrey Evans a Mrs Kathleen Williams a diolchwyd iddynt gan Mrs Eric Owen a Mrs Betty Humphreys.

LLONGYFARCHIADAU - Deian ar dy lwyddiant gyda chanu'r piano - Gradd I. Da iawn wir, dal ati Deian.

CLWB ERYRI - Yng nghyfarfod cyntaf eleni o Glwb Eryri pryd y llywyddwyd gan Mr Rol Williams, Waunfawr cafwyd annerchiad gan Mr Llion

Jones, prifathro Ysgol Tregarth ar rai o feirdd Ceredigion. Diolchwyd iddo gan Mr Eurwyn Jones. Croesawyd dau o'r aelodau a fu'n wael sef Mr Lolo Llywelyn o Lanrug ac Owen Humphreys o Nant Peris.

Yn yr ail gyfarfod cafwyd annerchiad gan Mr Wyre Thomas, Waunfawr gyda'r Dr Eurwyn Evans yn llywyddu.

YN YR YSBYTY - Yn Ysbyty Gallt y Sil Caernarfon mae Miss Mary Roberts, Abersoch (Glanffrwd gynt) chwaer Mrs Griffith John Griffiths, Stryd Newton. Dymunir iddi adferiad llwyr yn fuan iawn.

Yn Ysbyty Môn ac Arfon mae Mrs Enid Roberts, Maes Padarn yn derbyn triniaeth lawfeddygol. (Bryisia adra Enid!)

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Cydymdeimlwyd â Mrs Glenys Jones ar golli ei mam, â Mrs S.A. Jones, Field Terrace a Mrs Eluned M. Jones ar farwolaeth Mrs H.O. Roberts oedd wedi bod yn aelod ffyddlon iawn o'r Sefydliad ac yn ysgrifennydd ar un adeg.

Croesawyd aelod newydd i'n plith, sef Mrs Gwen Edwards.

Ar ôl darllen cofnodion a'r llythyr misol croesawodd y llywydd Mr Cyril Jones sydd yn Warden gyda Parc Cenedlaethol Eryri i roi sgwrs gyda chymorth sleidiau, ar y gwaith sydd yn cael ei wneud i atgyweirio'r llwybrau ar yr Wyddfa ar ôl yr erydu sydd yn cael ei wneud gan y miloedd cerddedwyr bob blwyddyn.

Y gwestwagedd am y noson oedd Mrs Mary Jackson, Mrs Nancy Jones, Mrs L. Jones, Mrs Katie Griffith a Mrs Iona Jones. Diolchwyd iddynt ac i Mr Cyril Jones, gan Mrs A.B. Jones gyda Mrs Arfon Evans yn eilio. Enillwyd y raffl gan Mrs Ethel Jones.

DARLITH - Yn Oriel Eryri, nos Wener, Chwefror 18 traddodwyd darlith dan nawdd Amgueddfa Genedlaethol Cymru gan yr Athro Brynley Roberts, Coleg y Brifysgol Abertawe. Ei destun ydoedd Edward Llwyd y Cymro.

Y GANOLFAN - Ar Chwefror 11 trefnodd pwyllgor y Ganolfan gyfarfod cyhoeddus i egluro i'r cyhoedd yr estyniad fydd ar dro i

ehangu'r ganolfan, ac hefyd i dderbyn syniadau gan yr ardalwyr ynglŷn â'r cyfan. Er na ddaeth cynulliad mor dda â hynny ynghyd - fe gafwyd trafodaeth eang a dderbyniwyd y cyfan o'r syniadau i'w rhoi gerbron Pwyllgor y Ganolfan.

Nos Wener, Chwefror 18 cyfarfu Pwyllgor y Ganolfan dan lywyddiaeth Mr Cledwyn Jones. Cyflwynodd yr ysgrifennydd y Cynghorydd Francis Jones y rhestr syniadau a gynigwyd o'r cyfarfod cyhoeddus, a rhoddwyd ystyriaeth deg a manwl i'r cyfan.

YSGOL DOLBADARN

Profedigaeth - Drwg iawn oedd gennym ddeall am farwolaeth Mr Hywel Morris, sef tad Miss J. Morris, un o athrawon yr ysgol. Cydymdeimlwn â Miss Morris yn ei cholled o dad cu ac annwyl iawn.

Gwaeledd - Dyna fu hanes rhai o blith holl staff yr ysgol ac hefyd y plant. Dymunir adferiad buan i bawb sy'n wael ac y ceir eu cwmni yn ôl unwaith yn rhagor yn yr ysgol.

Ffarwelio - Ddydd Gwener, Chwefror 25 ffarweliodd â Mrs Carolyn Roberts a fu'n athrawes llanw yn yr ysgol ers mis Tachwedd. Y mae Mrs Roberts yn ein gadael oherwydd disgwyl ychwanegiad i'r teulu. Dymunwn y gorau iddi hi i'r dyfodol. Diolch i Mrs Roberts am ei gwasanaeth teilwng i'r ysgol.

Dychwelyd yn ôl i'r ysgol - Dyna fu hanes Eilian, Llion a Manon Roberts. Balch iawn oedd cael eu croesawu yn ôl ar ôl cyfnod yn Sri Lanka lle mae eu tad yn gweithio. Cafwyd anrheg hardd o blât pres gan y plant i'r ysgol i gofio eu hymwelad â'r wlad dramor.

Ar benwythnos Chwefror 25-27 bu nifer o blant yr ysgol gyda Mr Iwan Roberts, BSc. yn ymweld â Gwersyll yr Urdd yng Nghan Llyn, Y Bala. Cafwyd amser difyr tros ben ac yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain.

Noson Agored - Ar nos Iau, Chwefror 17 cafwyd Noson Agored fuddiol dros ben yn yr ysgol pryd y cafodd y rhieni y cyfle i weld gwaith eu plant a thrafod eu cynnydd â'r athrawon.

Gohebydd - Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Llanberis 870220)

Cywydd i'r Cleifion

Nyni yw'r Clinicaid, yn stesiond yn Llanbêr, Ac weithiau (ddim yn aml), mae pethau'n mynd yn flêr, Ac wir, yr adeg hynny, mae pethau rhyfedd iawn Yn digwydd yn y Clinic, ar fore a phrynhawn. Mae yna lu ohonom yn gweithio yn ddi-baid, Doctoriaid, gweinyddesau del, dispensar a bydwraig (midwife!) Mae Jôs fel sarjant major, yn rhoi dros y lle Yn gweiddi "Pwy 'di nesa?" - A "Get a move on there".

Dacw Dan yn dwad dros y gamfa wen Cetyn yn ei boced a bedpan ar ei ben Tair Ymwelydd lechyd yn rhedeg rownd y lle A Nyrs Ysgolion druan yng nghanol gwalltiau nedd.

Y dair tu ôl i'r gwydr sy'n dair o genod clên Bob amser yn eich derbyn yn annwyl gyda gwên Ond gwatcheswch chi eu gwylltio, neu dynnu nhw i'ch pen Chewch fawr o gydymdeimlad, waeth ichi ddeud - AMEN.

Os fydd eich pen yn ysgafn, A'r clyw sydd braidd yn drwm Fe dynnith Carys wax o'r glust Fel sosesf mawr lu'r crwn.

Rhydd Helen bills a ffigis I bawb sydd ddim yn iach Ond peidiwch overdosio - neu - Ddowch chi byth o'r tŷ bach.

Daw Iona (Bont) ag Finir, A babis bach i'r byd S'im isio nhw ddwad yn aml - Mae dillad plant rhy ddrud.

Mair (Waen) a Iona, Meira a Beth yw'r gorau yn y wlad Am rectal washout, blanket bath, injections, Neno'r Tad! Gofalwch drin y rhain yn iawn neu lasa chi ddifaru - Erbyn i'r driniaeth orffen - mi fyddwch isio'ch claddu!

Rhwng chwarae bach a difri Maen rhaid chi ddeud y gwir - Fod eich Gwasanaeth lechyd Yr orau yn y sir!

CYNGOR CYMDEITHAS LLANBERIS

Cyfarfu aelodau'r cyngor yn Angorfa o dan lywyddiaeth y Cynghorydd Francis Jones.

S4C

Mae'r cyngor yn bryderus nad yw trigolion y Nant yn gallu derbyn y Bedwaredd Sianel. Felly, maent ar hyn o bryd yn pwysu ar Gyngor Arfon i sicrhau'r gwasanaeth ac mae swm o arian eisoes wedi ei ddarparu i'r pwrpas yma.

Penderfynwyd hefyd roi rhodd o £100 i geisio hwyluso'r sustem deledu yno.

Cytunwyd hefyd i roddi £20 i bob un o'r mudiadau lleol a wnaeth gais am gymorth ariannol erbyn y dyddiad penodol.

Gwasanaeth Bysiau Nant Peris

Cafwyd eglurhad gan gwmni Crosville pam nad ydynt yn rhedeg i ran uchaf y pentref. Mae'r waliau sydd wedi eu codi ar ochr y ffordd yn ei gwneud hi'n amhosibl i'r bysiau fedru troi.

Ond ar Fawrth 4 bydd arbrawf yn digwydd, o dan oruchwyliaeth cynghorwyr y Nant i weld os yw'n bosibl i fws Crosville i droi'n ôl ym Mur Mawr.

Lamp a Chyflwr y Palmant

Gwnaed cais gan denantiaid Rhes Eilian am lamp i oleuo'r fan, a thynnwyd sylw'r Gymuned i gyflwr y palmant ger Gardda Bach, Nant Peris a chyflwr Stryd Newton a Warden Street lle mae'r 'chippings' heb eu clirio. Bydd y cyfan o'r cwynion yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor Sir.

Croeso a chydymdeimlad

Croesawyd y Cynghorydd O.W. Humphreys, Nant Peris i'r pwyllgor ar ôl ei waeledd, a chydymdeimlwyd â'r Cynghorydd William Roberts, Stryd Capel Coch ar golli ei frawd.

Darpar aelod o bwyllgor y Parc

Cynigiwyd y Cynghorydd Ken Jones i fod yn ddarpar-aelod o Bwyllgor y Parc Cenedlaethol.

Mynwent Nant Peris

Tynnwyd sylw'r pwyllgor at y fynwent yn Nant Peris, mae hi'n brysur lenwi a phenderfynwyd anfon at y Swyddfa Gymreig i geisio mwy o dir i ehangu'r fynwent. Disgwylir yn y dyfodol agos y bydd y gwaith o lanhau a thwtio'r fynwent yn dechrau.

Cyfarfod â'r BCCT

Trefnwyd cyfarfod ar gyfer Mawrth 7 rhwng aelodau o'r Cyngor Cymdeithas a'r Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan i drafod y ffordd orau o gau'r pwl dŵr sydd yng ngheg y twnel nepell o Nant Peris. Mae pryder wedi ei ddatgan yn y Nant fod y pwl dŵr yma, er ei fod wedi ei ffensio unwaith gan y BCCT, yn dal yn beryglus.

Canolfan Wybodaeth

Mae'r cyngor wedi cysylltu â Bwrdd Croeso Cymru i geisio cymorth i sefydlu canolfan wybodaeth i ymwelwyr ym mhentref Llanberis.

Torri coed ar gynnydd

"Fandaliaeth" yw gair y Cyngor am yr holl dorri coed sy'n digwydd yn yr

"FANDALIAETH"



ardal y dyddiau hyn. Mae hyn yn digwydd ar raddfa llawer mwy nag a welwyd yn yr ardal o'r blaen. Mae coed wedi eu torri, er enghraifft, ar ochr y ffordd osgoi a Choed Doctor. Mae'r cyngor am gysylltu â'r Cyngor Sir er mwyn penderfynu ar y dulliau y gellir eu mabwysiadu i atal hyn.

Plisman i Lanberis

Testun pryder i lawer o drigolion Llanberis yw'r ffaith nad oes plisman yn byw yn y pentref a bod y tŷ swyddfa'r heddlu ym Maes Padarn yn wag.

Yng nghyfarfod diweddaraf y

cyngor cafodd yr aelodau gyfle i drafod hyn gyda'r Prif Arolygydd Hughes o Gaernarfon a'r Sarjant Owen o Lanberis (sy'n byw ym Methel).

Sicrhodd y Prif Arolygydd y cynghorwyr y "bydd plisman yn byw yn Llanberis yn y dyfodol agos iawn."

Gwahoddiodd y plismyn unrhyw fudiad neu gymdeithas (Clwb y Mamau, Yr Henoed, Yr Anabl ac yn y blaen) yn yr ardal sy'n dymuno trafod unrhyw beth perthnasol i'r heddlu a'r gymdeithas i gysylltu â Sarjant Owen.

CYSTADLEUAETH CROESAIR CYHOEDDIADAU MEI

Yr atebion cywir oedd:

1. Lawr: 1. Cŵyr. 2. Si. 4. So. 5. Gŵyr. 6. Mynyddig. 8. Cel. 9. Bae. 11. Crap. 12. Dwl. 14. Da. 15. Ffa.

Ar Draws: 1. Casg. 3. Ysig. 7. Myn. 10. Ceffylau. 13. Leid. 16. Plau. 17. Plu.

Cafwyd yr ateb cywir gan:

M. Evans, 37 Lôn Merllyn, Y Rhyf. Clwyd.

Mae bellach wedi derbyn ei gwobr o £10 a chyfrol o "50 o Groeseiriau" - William Jones.

DAMWEINIAU



Bob blwyddyn yn echrydus o reolaidd mae 30,000 o bobl yn cynnwys 1,300 o blant yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau car.

'Roedd Ionawr 31 y flwyddyn yma yn garreg filltir ar y ffordd hir i geisio lleihau'r gyflafan flynyddol yma.

Bu'r ymgyrch i gael y ddeddf ar y llyfr stadud yn hir ac fe roddwyd llawer rhwystr yn ei ffordd. Ceisiodd llawer unigolyn gyda mesurau preifat ond disgyn ar ymyl y ffordd fu eu hanes. Bellach mae'n ddeddf gwlad a rhaid yw defnyddio'r gwregys neu wynebu'r ddirwy o £50. Er hyn dim ond am dair blynedd y mae'r ddeddf i barhau gydag adolygiad ym 1984.

Gwastraff gofod fyddai ailagor y ddadl o blaid neu yn erbyn yn hytrach gwell fyddai amlinellu oblygiadau i chwi fel gyrrwr neu deithiwr.

Os ydych dros 14 oed mae'r cyfrifoldeb o wisgo'r wregys arnoch chwi fel unigolyn, os ydych yn eistedd yn y seddau blaen. Yn fras mae hyn yn golygu i yrwyr a theithwyr mewn ceir gyda llythyren plât 'C' neu ddiweddarach, mewn faniau ysgafn plât 'E' neu ddiweddarach a cheir tri olwyn plât 'J' neu ddiweddarach. Hynny yw os oes gennych gar wedi ei gofrestru cyn 31.12.64 nid oes reidrwydd arnoch i osod nac i wisgo gwregys. Gwall arall yn y ddeddf newydd yw os oes gennych sedd fainc ym mlaen y car sydd yn galluogi i dri eistedd nid oes

raid i'r trydydd person wisgo gwregys.

Mae peth cymhlethdod wedi codi ynglŷn â'r ddeddf parthed plant ond yn wir mae'n eithaf syml. Rhaid i blant 14eg oed neu lai ym mlaen y car fod yn gwisgo gwregys gyda'r cyfrifoldeb ar y gyrrwr i sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Plant o dan flwydd oed i gael eu hatal gyda gwregys a gymeradwywyd ar gyfer plant o'r oedran a'r pwysau hynny.

Yn ymarferol dylai plentyn o dan flwydd fod mewn 'carrycot' yng nghefn y car, gyda'r 'cot' wedi ei gysylltu i'r cerbyd gyda strapiau pwrpasol. O flwydd i 4 oed mae seddau pwrpasol i'w lleoli ar sedd gefn y car, gan sicrhau fod y sedd wedi ei chysylltu â chorff y cerbyd, nid wedi ei chlymu i'r sedd yn unig. O bedair i ddeuddeg dylid defnyddio gwregys arbennig i blant, eto yng nghefn y car, neu ddefnyddio gwregys oedolion gyda chlustog arbennig i godi'r plentyn.

Os am fanylion mwy trylwyr ynglŷn â'r ddeddf mae dau bamffledyn ar gael oddi wrth Adran Diogelwch y Ffyrdd, Swyddfydd Maesincla, Caernarfon. "Diogelwch Plant mewn ceir" a "Gwregysau Diogelwch chi a'r gyfraith" yn rhad ac am ddim.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes



Y Three Degrees o Lanrug



Y dyn tewaf yn y byd — yn cael ei gyflwyno gan yr arweinydd

LIMRIG "DŴR"

Mae digon o ddŵr ar dir Cymru,
Ac wir, mae'r Bwrdd Dŵr yn ei werthu
I'r Saeson yn rhad,
Ond mae hyn yn sarhad,
Ar bobl ein gwlad: — rhaid ymgyrchu.
Mae merched yn peintio'u hwynebâu,
Ac yn gosod pob lliw ar eu gweflau,
Ond yr unig beth fu
Ar wyneb mam-gu
Oedd dŵr glaw, — ac fe ddenodd hi'r hogiau.
"John bach, dyro ddŵr efo'th whisgi,
Mae'n costio mor ddrud," meddai Gwenni.
Ond chwerthin wnaeth John,
Gan ateb yn llon,
"Mae'r ddau bron 'run bris i ni'r Cymry."

1af Nancy Lovatt
Brwynog
Llanrug

CYDBWYLLGOR ADDYSG SIROEDD GOGLEDD CYMRU

Y COLEG NORMAL, BANGOR

Prifathro: Dr J.A. Davies, M.A., B.Sc.

CYNLLUNIO CREFFT A THECHNOLEG

Cwrs arbenigol yn arwain i B.Add/B.Add.(Anrhydedd).

A ydych wedi'ch hyfforddi mewn Cynllunio, Peirianeg neu i weithio mewn metel, plastig, coed ac ati? Neu a gawsoch brofiad o Gynllunio, Crefft a Thechnoleg/Gwaith Coed/Gwaith Metel/Arlunio yn yr ysgol?

Mae prinder o athrawon gyda chymwysterau arbenigol mewn Cynllunio, Crefft a Thechnoleg.

Yng Nghanolfan newydd Cynllunio, Crefft a Thechnoleg Y Coleg Normal mae cyfleusterau ardderchog, yn cynnwys gweithdai gogyfer â Pheirianeg, Gwaith Coed, Metel, Gemwaith a Gwaith Gof Arian yn ogystal â Stiwdio Graffigwaith Technegol a Llyfrgell. Mae'r cwrs arbenigol mewn C.C.T. wedi ei sefydlu ar y Ddiploma Addysg Uwch yn caniatáu i fyfyrwyr ddilyn rhaglenni wedi eu dewis yn bersonol gyda phwyslais ar eu diddordebau unigol.

Gwahoddir darpar fyfyrwyr, yn feibion a merched, i gael golwg ar y cyfleusterau a chyfarfod myfyrwyr a staff cyn gwneud cais ffurfiol.

Cymwysterau derbyn yn ddau bwnc lefel 'A' ac iaith Saesneg a Mathemateg lefel 'O'. Gellir rhoddi ystyriaeth arbennig i fyfyrwyr hyn (dros 23) sydd â chymwysterau eraill.

Am fanylion pellach ymofynner (trwy lythyr neu ffôn) â'r Swyddog Derbyn, Y Coleg Normal, Bangor, Gwynedd LL57 2HQ. Rhif Ffôn: (0248) 52121.

MIRI'R FFUG

Y Sul Cymreig
(Cerdd Ysgafn)

Pa beth sydd wedi digwydd
I'r Sul Cymreig, go iawn
Y Capel wedi'i dwymo,
A'r seddau'n chwarter llawn;
Y 'News of World' a'r 'People',
A welir ar y bwrdd
A photel fawr o 'wisgi'
I gadw'r 'flu' i ffwrdd.

Mae'n siŵr yr hoffech wybod
Sut treuliwn ni y Sul,
Gorweddwn dan y blanced,
A John y gŵr, fel mul;
Ond, newid ddaw yn fuan
Wrth glosio ato'n dyn;
Ni fynwn i chwi wybod
Beth ddigwydd ar ôl hyn.

O! John! O cod! 'rhen gariad
I wneud ryw baned bach,
Fe deimlwn yn fodlonach
'Rôl spel, a mygyn bach;
Mae dipyn o spar neithiwr
Yn cnoi tu mewn i'r bol,
Ond! beth yw'r ots am hynny,
Waeth neb â gwneud dim lol.

Nid oeddym awydd cinio
Awn am y bath ill dau,
Fe wnaiff 'run dŵr i'n felly
Ac unwaith, rhaid glanhau:
Chwaraeon nes creu 'bubbles'
A'r sebon oglea neis,
Ac yna ar ei wyneb
Rhydd John, o'r botel 'spice'.

Beth wisgaf i fynd allan
Yw'r broblem imi'n awr,
Bydd John a'r car yn barod
Pan wel fi'n dod i lawr,
Ac yna am ryw westy
Am stêc a 'chips', a gwin,
Pa beth a wnawn ni wedyn
Dibyna ar yr hin.

Mae'r bingo bron ar ddechrau
Rhaid cael y 'tickets' 'nawr,
Gan ddisgwyl y cawn heno
Y wob'r 'snowball fawr'.
Rhaid trio'r 'one arm bandit',
Er mai dydd Sul yw hi,
Beth ddwedai yr hen bobol
Wrth weld eu plant ar sbri!

Ni ddaeth 'run ddima' allan
O fol y dyn un llaw,
A thafllwyd llyfr y bingo
Dan ochain i'r bin baw;
A welir newid eto
Yn un naw, wyth deg tri,
Mae'r diafol ar 'i fyny
Mae wedi'n twyllo ni.

Mrs Mary Grace Williams,
Bethel.



Seremoni fawr



Limrigau - Dŵr

Aeth fodan fain dena o G'nafron
Un diwrnod lawr Cei at yr afon
Y gwynt gododd stŵr
A'i chipio i'r dŵr
Daeth allan ohono fo'n 'Werddon!

Daeth dyn bach o Fesopotamia
I Lanbêr i ddringo i ben Wyddfa.
Chyrhaeddodd o ddim
Mi faglod i'r llyn
A boddi mewn dŵr at ei glustia!

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

EISTEDDFOD



ddog y batheirio



'Wyddai Joni pa ddŵr na pha firi,
Aeth adref at Leusa'n reit handi,
Gan fod hi yp-tw-dêt
Efo pethau sedêt
Meddai - "Wel pi pi mewn pot, sisio'r
Crinci!"

CANLYNIADAU FFUG-EISTEDDFOD BRO ECO'R WYDDFA 1983

Grŵp yn meimio i unrhyw record neu dâp:

1. Y Three Degrees, Llanrug. 2. Teulu Shep Llanrug. 3. Y Dynion Rhyfedd, Penisarwaun. Adrodd dan 5 oed: 1. Plwmsan, Ann Ifans, Penisarwaun. 2. Wmffra a'i fam. Seiriol Owen a Brian Williams Bethel. 3. Hat Het Wellt, Eluned Porter, Penisarwaun. Grŵp Offerynnau gwreiddiol: 1. Hogia Llofft Stabal, Penisarwaun. 2. Coesa' Blewog Llanrug. 3. Band Elastic Bethel. Taffleisio gyda Dolj-Bren-Fyw: 1. Mrs Bryce-Thompson ac Eunice. Lynwen Morris a Ceinwen Williams Bethel. Unrhyw Act Syrcas: 1. Y Dyn Tewaf yn y Byd (Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug). 2. Syrcas Latheb Bethel. 3. Syrcas Penny Mills Penisarwaun. Unrhyw Hysbyseb Gwreiddiol: 1. Philly Tcheini. Phyllis Ellis, Penisarwaun. 2. Wish you were here. Bethel. 3. Y Clinicaliaid Llanberis. Unawd neu Ddeuawd mewn bath: 1. Sion a Sian, Penisarwaun, Mrs Eluned Porter a Mrs Percy Williams. 2. Dau dan Dŵf, Penisarwaun, Annwen Jones a Gwenan Davies. 3. Camay a Lux, Bethel, Goronwy Jones a Bet Owen. Yr Hen Ddyn Budr a'i fogan. Penisarwaun, Ann Ifans a Jean Roberts. Bale yn seiliedig ar un o raglenni S4C: Cyd-fuddugwyr: Cwmni Coleg Bethel, Coleg, Cwmni Pwll Chwadods Penisarwaun, Mil o Alwadau. Cwmni Lili Horman Venice Llanrug, Madam Wen.

Cystadlaethau Barddonllyd a Lletthol - Bardd y Bath: Cerdd ysgafn 'Y Sul Cymreig'. 'Eco', sef Mrs Mary Grace Williams, Bethel. Limric yn cynnwys y gair 'dŵr': 1. 'Diamond Lil' - Mrs Nancy Lovatt Brwynog Llanrug. 2. 'Mwnici', Ceri Pierce Llanberis. 3. 'Jôs', Nant Roberts Penisarwaun. Catriona. Llythyr Caru. 1. Draenog Drewllyd, Ann Hopcyn Bethel. 2. Madam Coch, John V. Morris, Clwt-y-bont, Deiniolen. 3. Profiadol, Gwyn Parry Deiniolen. Deg o Ddiarhebion newydd sbon: 1. Celanydd, Ann Evans, Penisarwaun. 2. Annoeth - Ann Evans, Penisarwaun. 3. Solomon 13eg.

Cymerwyd rhan gan y pentrefi canlynol:

Bethel, Deiniolen, Llanrug, Llanberis, Penisarwaun.

wtlws yr Eco, sef Tarian yn rhoddedig gan Banc y Midland Llanberis i'r pentref buddugol: Penisarwaun.

Gofynnodd y meddyg i Joni
Ble oedd? - a "Be sy'n dy
boeni?" Cael sampl o ddŵr
Fyddai'r ateb, yn siŵr,
Wedyn fe wnawn rhywbeth ohoni."



Y Clinicaliaid o Lanberis



Mistar dynion o Benisarwaun



Syrcas 'Letheb' o Fethel

CASGLIAD O DDEG O DDARHEBION NEWYDD

1. Gwyn y gwêl y frân ei chyw - mewn storm eira.
2. Yn y carthu mae'r drewi.
3. Yr hen â ŵyr - yr ifanc â ŵyr y blincin lot.
4. Nid mewn Rolls mae ralio.
5. Hir pob ciw döl.
6. Ffon y bywyd yw gwaith.
7. Yn hem y bais mae dechrau cynhyrfu!
8. Gwell mynd i'r Llan nag i'r llwyn.
9. I'r Sais y rhed y dŵr.
10. Gorau Bro - Bro'r Eco.

1af Ann Ifans.
Penisarwaun.

CYMDEITHAS Y GRONYN GWENITH

PASANT '83 BARGEN DINORWIG

Emyr Jones

THEATR SEILO, CAERNARFON

Nos Fawrth hyd nos Sadwrn
Mawrth 22-26 am 7.30

Tocynnau - £1.25. Plant, Pensiynwyr a Phartïon
dros 10 - £1.00

Ar werth yn Siopau Glyn Jones, Stryd Bangor;
Gray-Thomas ac Eurwyn Morris a Chanolfan
Seilo

Manylion pellach gan Drefnydd Perfformiadau:
Gwilym Jones, 11 Stryd Dinorwig, Caernarfon.
(Ffôn: 2091)



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

YMWELIAD BARDD – Yn ystod y mis daeth bardd enwog sef Robert Minihinnick i'r ysgol i ddarllen darnau o'i farddoniaeth i ddosbarthiadau 5 a 6. Mwynhawyd y darlleniad yn fawr iawn.

EISTEDDFOD YR URDD – Ddiwedd y mis hwn hefyd, mae rhai o ddisgyblion yr ysgol yn paratoi ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Gylch a Sir yr Urdd. Pob hwyl i bawb yn yr eisteddfodau.

DIGON O WYNT! – Ym Mhorthaethwy ar Chwefror 12 bu Berwyn Owen, sy'n 14 oed, yn



llwyddiannus yng Nghystadleuaeth Unawd Bandiau Pres Gogledd Cymru. Daeth yn ail allan o 25 o gystadleuwyr yn yr unawd i rai dan 16 oed. Yn y gystadleuaeth roedd yn chwarae 'Holy City' ar y corned. Mae Berwyn yn aelod o Fand Llanrug hefyd. Da iawn Berwyn.

PÊL-DROED – Cwpan Bryn Davies (i fechgyn dan 16 oed Ysgolion Cymru). Adran Gwynedd: Rownd gyn-derfynol: Ysgol Brynrefail 9, Ysgol Tywyn, 0.

Rownd derfynol yn Ysgol Caergybi: 1-1 oedd y sgôr ar ôl chwarae amser ychwanegol. Fe aeth Brynrefail ar y blaen yn yr hanner cyntaf pan sgoriodd Alan Williams ac fe ddaeth Caergybi yn gyfartal yn yr ail hanner drwy gic gosb. Bu'n rhaid penderfynu'r enillwyr drwy gymryd ciciau cosb. Yn anffodus fe aeth yr ysgol i lawr o 4 gôl i 3.

Gemau Cyfeillgar – Dosbarth 1: Tim 'A' – Ysgol Brynrefail 7, Llangefni 2. Tim 'B' – Ysgol Brynrefail 1, Llangefni 0. Dan 13eg – Ysgol Brynrefail 1, Llangefni 2. Dan 14eg – Ysgol Brynrefail 0, Llangefni 6. Dan 15eg – Ysgol Brynrefail 1, Llangefni 1.

TRAWS GWLAD YSGOLION ARFON Bu amryw o fechgyn a genethod yn cystadlu yn y pencampwriaethau traws gwlad ym Mangor ar Chwefror 23. Dyma'r goreuon o'r ysgol: Melanie Sellars 1af, Genethod dan 17 oed. Rhain Lewis (Deiniolen) 2il, Genethod dan 15 oed. Matthew Ward (Llanrug) 7ed, Bechgyn dan 15. Lee Griffiths (Dinorwig) 6ed, Bechgyn dan 13. Jason Roberts (Llanberis) 7. Bechgyn dan 13.

ETO'N FYW!

Ddydd Gŵyl Dewi lansiwyd un o'r cynlluniau mwyaf mentrus ac uchelgeisiol eto i ddysgu'r Gymraeg fel ail-iaith gyda chyhoeddi rhestr cyrsiau cyntaf Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn.

Lleolwyd y Ganolfan yn y pentref enwog hwnnw ar arfordir gogledd Penrhyn Llŷn, sef Porth y Nant. Bu'n gartref i genedlaethau o deuluoedd chwarelwyr y wenithfaen lleol ond gyda dirywiad y diwydiant gwacawyd yr aelwydydd, ac erbyn 1960 roedd y teulu olaf wedi ymadael gan adael pum tŷ ar hugain, capel, ffermdy a phlasdy rheolwr y chwarel oll yn wag.

Ym 1978 ffurfiwyd Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn a fwriadodd ati i brynu'r pentref i'w ddatblygu'n ganolfan er dysgu ac hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Bu'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ddiwyd yn casglu cyfalaf ac erbyn hyn llwyddwyd i sicrhau llety mewn bythynnod wedi eu moderneiddio'n gysurus gyda phob gwasanaeth ynghyd â chanolfan gymdeithasol yn yr hen gapel, llety warden yn yr hen ysgoldy a siop fechan sydd hefyd yn darparu lluniaeth. Â rhagor o waith yn ei flaen ar adeiladu ffordd newydd ynghyd ag ymestyn gwasanaethau ffôn a thrydan i'r pentref.

Codwyd y cyfalaf a fu'n gyfrifol am y datblygiadau hyn trwy roddion cyrff cyhoeddus a phreifat, unigolion ac ymgeision glew dysgwyr eu hunain. Mewn ambell ardal daeth dysgwyr ynghyd i ffurfio grwpiau i noddi'r gwaith adfer ar dai. Ymhlith y cyrff cyhoeddus a fu'n gefnogol i'r achos mae Cyngor Dosbarth Dwyfor, y Swyddfa Gymreig, Pwyllgor Tywysog Cymru ar yr

Amgylchfyd a llw o Gynghorau Cymuned ledled Cymru.

Trefnwyd amserlen gynhwysfawr o gyrsiau wythnosol a phenwythnos gan bwyllgor iaith y Ganolfan sydd yn cynnwys rhai o'r arbenigwyr mwyaf blaengar ym maes dysgu Cymraeg fel ail-iaith. Mae'r cyrsiau yn cynnig hyfforddiant i grwpiau bychain o bobl.

Cynigir cyrsiau ar gyfer unigolion a theuluoedd pa un ai ydynt yn meddu ar rywfaint o'r Gymraeg ai peidio. Yn yr un modd mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig cyrsiau ar gyfer pobl broffesiynol sydd naill ai yn dysgu Cymraeg neu am gyfle i fagu mwy o hyder drwy ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfa broffesiynol. Bydd cyrsiau o'r fath ar gael ym 1983 ar gyfer Meddygon a Nyrsus, yr Heddlu a Chyfreithwyr, Newyddiadurwyr a phobl y cyfryngau, Gweithwyr Cymdeithasol ynghyd â phobl sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus.

Yn ogystal â hyn oll mae adnoddau'r Ganolfan hefyd i'w cynnig ar log i gymdeithasau a sefydliadau sydd yn cydymdeimlo ag amcanion yr Ymddiriedolaeth, er enghraifft Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon, Clybiau Ffermwyr Iauanc, Naturiaethwyr ac yn y blaen.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Alan Wyn Jones, Ysw., Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr. Ffôn 0654 2658.

O BANTRI BETH



Dros yr hanner tymor mi fûm yn lwerddon. Arhosais â Beti a Bryan OBaeill. Mae'n siŵr bod rhai ohonoch yn adnabod Beti, merch R.E. Jones, Llanberis gynt, rwan o Lanrwst. Mi ges wledd o fwyd a dyma ddwy risêt.

BARA BETI

pwys o flawd gwenith

pwys o flawd plaen

owns o fenyn

llwyaid te o halen

llwyaid te o soda

peint o laeth enwyn

Rhwbio'r menyndrwy'r blawd a'r cynhwysion eraill.

Ychwanegu'r llaeth a'i ddylino'n dda.

Wedyn ei grasu mewn popty poeth Nwy 7 am ½ awr.

Mi wnes i hwn i gyd yn y Kenwood. Bara blasus a hawdd i'w wneud.

SALAD I'W FWYTA Â CHIG OER

1 afal gwyrdd

cabatsen wen

wynwnsyn

dyrnoid da o raisins

hylif salad i'w gymysgu

Torrwch yr afal, wynwnsyn a'r gabatsen yn fân a'u cymysgu efo'r raisins. Cymysgwch y cyfan efo hylif salad, a'i fwyta efo unrhyw gig oer.

BETWS GARMON

PEN-BLWYDD – Dathlodd Mr William Griffith, Caeau Gwynion ei ben-blwydd yn 82 mlwydd oed yn ddiweddar. Dymunir pob dymuniad da iddo.

GWAELEDD – Mae'n dda gennym glywed bod Mrs Nell Hughes (Arwel gynt), Y Groeslon, Caernarfon wedi dychwelyd o'r ysbyty wedi triniaeth feddygol yn ddiweddar. Dychwelodd Mrs M. Awstin Jones, Penrhos, Y Waunfawr (un arall o gyn-drigolion y pentref – chwaer Mr O.P. Pritchard, Plas Isa') o'r ysbyty wedi triniaeth yn ddiweddar. Hefyd bu Mrs P. Sanderson, Bryn Afon yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor am ychydig ddyddiau'n ddiweddar.

Dymunir gwellhad llwyr i'r tair.

TEULUOEDD NEWYDD – Gobeithir i deuluoedd newydd a ddaeth i'r pentref yn ddiweddar fod yn hapus yn eu cartrefi a'u hamgylchfyd newydd – Mr a Mrs P. Sanderson a Richard, Bryn Afon; Mr a Mrs Trollop, Plas y Coed a Mr a Mrs Closs, a'u tri plentyn, Plas y Nant.

Hefyd aeth Gwilym a Marlene Owen, a'u dau fab, Michael a David yn ôl i'w cartref, Ystrad Isaf, sydd ar ei newydd wedd wedi ei adnewyddu'n gyfan gwbl ac yn edrych yn ddeniadol dros ben.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

EIN FFOTOGRAFFYDD WEDI DYCHRYN Y BEIRNIAD



Dyma ymateb Mari Gwilym, beirniad y Ffug-eisteddfod, i'r sawl sy' fflachio arni!

LLYTHYR CARU

Dan y Dail,
Coed Duon,
Yr Hydref.

Annwyl Pigyn, sori Pishyn,

Sut hwyl? Gobeithio nad wyt yn bigog heddiw. (Yn anffodus, mae hwnnw'n nodwydd o dy gymeriad.) Meddwl yr oeddwn y basat yn licio dod draw ataf, i gyd-gysgu â mi dros y gaeaf sydd o'n blaenau. Mae dau wrth gwrs yn medru cyd-gysgu cyn rhated ag un, a basa deffro'r gwanwyn nesaf, a gweld dy lygaid gloyw yn sbio arnaf, yn fy ngyrru i bêr lewyg.

Wel, pam pigo arnat ti, dwed? 'Rwy'n cofio'th weld am y tro cyntaf yn slochian malwod yn y gwter ar fin y goedwig. "Hon yw fy nraenog i!" cenais dros bob man. 'Roedd det wedi fy machu.

Clywais sôn, hefyd, mai pedigris yw dy chwain dithau, a chaent neidio o'th gefn di, i'm cefn i. ('Rwy'n gredwr cryf mewn rhannu adnoddau, lle bo modd.)

Cofion pigoglyd atat, fy meinwen finiog. Brysfa ataf – mae saeth yr hen Giwpid wedi fy mhigo.

Cofion draenogaidd,
Wmfra.

Ann Hopcyn, Bethel



**I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...**

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:
LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

BETHEL

Gohebydd - Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

LLONGYFARCHIADAU i Sister Gwen Miller, Braich Iffri ar ei phenodi yn Swyddog Nyrsio yng Ngwynedd. Dechreuodd ar ei gwaith fis Ionawr. Dymunwn y gorau iddi.

SIOE AMAETHYDDOL GOGLEDD CYMRU - Cynhelir y Sioe Amaethyddol flynyddol eleni ddydd Sadwrn Mai 28. Fel rhan o weithgareddau'r Sioe mae Mr Lawrence Walley yn trefnu sioe golomennod yn y Neuadd. Mae cynnal y sioe yn y Neuadd yn fenter newydd i'r Sioe, a dymunwn bob llwyddiant iddi.

PLAID CYMRU, BETHEL - Roedd digon o hwyl a chwerthin yn y Neuadd yn ystod cyfarfod diwethaf y gangen, pryd yr wynebodd tîm lleol dîm o Riwlas mewn cystadleuaeth 'Dyfal Donc'. Wedi crafu pen wrth ddyfalu ystyron geiriau dieithr iawn, chwys wrth restru enwau yn gyflym, gyflym ac ymlafnio i wneud llun ceiliog mewn hanner munud, heb sôn am gampau amrywiol eraill, tîm Rhiwlas a orfu o 2 farc. Diolch yn fawr i Mr Ifan Glyn Jones o Benygroes am drefnu'r gystadleuaeth ac am gadw cystal trefn ar y ddau dîm ac i bawb o Riwlas a Bethel a ddaeth i'n cefnogi. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn ystod mis Mawrth.

DARLLENWYR PELL - Bydd Mrs Betty Jones, Pen y Buarth yn anfon yr Eco bob mis i'r ferch Megan a'r teulu sydd yn byw am gyfnod yn Sri Lanka. Mae edrych ymlaen mawr am weld yr Eco yno. Tybed a oes darllenwyr pell eraill i'r Eco.

MAM A PHELENTYN - Sefydlwyd cylch newydd 'Mam a'i phlant' ym Methel. Cynhelir y cyfarfodydd ar fore Mercher a phrynhawn Gwener yn ystod tymor yr ysgol. Bydd y

cyfarfod cyntaf yr ail o Fawrth, 10.30 am - 12.00, a'r ail ar y 4ydd o Fawrth, 1.30 pm - 3.00 pm.

Y cadeirydd fydd Mrs Eluned Davies, Garth; Trysorydd, Mrs Glenys Griffith, Llwyn Eithin; Ysgrifennydd, Mrs Eirlys Williams, 20 Y Ddôl. Aelodau o'r pwyllgor: Mrs Mair Williams, 15 Y Ddôl; Mrs Morfudd Thomas, 14 Stad Eryri; Mrs Gillian Morris, 5 Cremlyn; Mrs Alice Peters, 13 Cremlyn; Mrs Miriam Thomas, 9 Cremlyn; Mrs Diane Hughes, Afallon. Hefyd gwahoddir dau aelod o bwyllgor yr ysgol feithrin i ymuno â'r pwyllgor.

Cafwyd bore coffi llwyddiannus i godi arian tuag at y cylch ar y 23ain o Chwefror. Enillwyr y raffl oedd: 1af, Llinos Williams, 15 Y Ddôl; 2il, Ann Jones, 16 Tan-y-Cae; 3ydd, Nia Jones, Sycharth; 4ydd, L. Jones, 6 Stad Eryri; 5ed, Peter Jones, 29 Bro Rhos. Diolch i bawb am y rhoddion ac yn arbennig i Miss Jane Jones, Llanrug (Health Visitor) am ei rhodd a'i chymorth tuag at sefydlu'r cylch. **CARNIFAL 1983** - Mae pwyllgor y carnifal bellach yn brysur yn trefnu'r carnifal erbyn yr haf. Bydd yr wythnos yn cychwyn Mehefin 26, gyda cymanfa a daw'r gweithgareddau i ben gyda charnifal yn y cae chwarae ddydd Sadwrn, Gorffennaf 2. Yn ystod yr wythnos bydd disco, chwaraeon, cystadleuaeth pêl droed pump bob ochr, bingo a helfa drysor.

BRENNHINES 1983 - Mewn noson goffi nos Wener Chwefror 11 dewiswyd Carys Owen, Berwyn yn frenhines y Carnifal 1983. Amanda Lingard, Bro Rhos ddewiswyd yn Lord Chamberlin gyda Meriel Hughes, Tan y Buarth a Ceri Hughes, Bron Gwynedd yn forynion. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r bedair yn eu blwyddyn o deyrnasu.



SCIPIAU TIM



o £16

**CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL**

LLANBERIS 871354

Colli

Mae pawb yn gwybod ystyr y gair bach yma, ond hwyrach nad yw yn golygu yr un peth i bawb. Gellir colli tymer, colli gwallt, colli arian, colli'r bws, colli'r ffordd, colli cyfaill, neu i'r rhai hynaf ohonom colli ffydd, colli cyfeillgarwch a cholli gobaith.

Tybiaf fod ardal Llanberis wedi colli llawer iawn fel yr awgrymwyd ar y rhaglen 'Stondin Ddyddiol' y bore o'r blaen pryd y bu Sulwyn Thomas yn holi rhai o'r pentrefwyr. Awgrymodd un siaradwr fod y dirywiad yn yr ardal wedi cychwyn pan fu cau "Y Chwael Fawr" - (Chwael Dinorwig). Mae hyn yn wir, ac nid yn unig pentref Llanberis sydd wedi colli llawer ond yr ardaloedd oddi amgylch. Y chwael ydoedd asgwrn cefn pob llan a phentref - chwaelwyr fu'r ardalwyr o oes i oes, ac nid oedd diwedd i'r diwydiant yma wedi ei freuddwydio gan neb erioed. Ond gorffen wnaeth y chwael, distawodd 'y cun a'r morthwyl mwy', a dyma'r colli mawr cyntaf a ddaeth i'r pentref. Llanberis - y cyntaf o amryw o bethau.

Yna, daeth colli "Y Rêl-wê" - rhywbeth oedd yn rhoddi pwysigrwydd i'r pentref. Cofiw'n fel y deuai cannoedd o deithwyr ar y trên ddeg er cael diwrnod o deithio i ben yr Wyddfa, y pentref yn frith o ddiethriaid yn prynu yma ac acw cyn dychwelyd i'r trên am bump o'r gloch. A diwrnod mawr y trên oedd diwrnod y triapiau Ysgol Sul. Tua 500 o deithwyr - teuluoedd cyfan, yn cael yr un diwrnod mawr yn y Rhyl a theithio gyda'r trên. Codi teuluoedd yng Nghwm-y-glo ac yna ym Mhonrhythallt, tua deg neu ar ddeg o gerbyddau yn cael eu tynnu gan yr injian bach. Bu colli'r trên yn golled fawr iawn i'r pentref.

Colled i'r ieuenctid yn fwy na dim oedd colli'r "pictiws". Dyma gyrchfan bechgyn a genethod ar nos Wener neu nos Sadwrn, a chawsai pawb werth eu pres bob tro. Roedd Mr Sydney Wakeham yn rhedeg Pictiws Bach y Borth, Pictiws Bangor (lle mae'r Plaza nawr), Pictiws Bethesda a Llanberis, ac felly hawdd deall yr amrywiaeth dda o ffilmiau a welwyd. Cofiaf yn dda fel y rhuthrwn i orffen fy ngwaith cartref - yna cael chwe cheiniog i fynd i'r Pictiws.

Colled fawr iawn i blant Ysgol Brynrefail oedd colli'r chwe chwrt tenis ar dir Gwesty'r Victoria. Byddai rhai o athrawon yr ysgol yn dod i fyny bron bob nos i chwarae gyda'r disgyblion. Awr o chwarae, (mwy os byddai neb yn disgwyl) am wyth geiniog yr un.

Y bechgyn gafodd y golled fwyaf pan gaewyd 'Y Cwt Biliards' yn Parc Lane. Gaeaf a haf byddai'r bechgyn yn chwarae neu yn gwylio am oriau. Clywais fod y perchennog wedi ei gynnig yn rhad i'r Aelwyd i'w gadw er adloniant y bechgyn. Nid oes gennyf sicrwydd am hyn, ond gresyn i'r pentref golli cyfle ynte!

Cyfeiriwyd hefyd ar Raglen Silwyn fod Llanberis wedi colli pedwar capel, er bod un wedi ei drosi yn gapel i'r Pabyddion, ac un yn Warws. Bydd ffatri, a gwaith i'w gael i ferched mewn un - a'r olaf - wedi ei lwyr ddymchwel. Mae'n wir mai dim ond adeiladau oeddynt erbyn hyn, meini a chregyn gweigion er iddynt fod yn rhan helaeth o batrwm bywyd yr ardal ac yn ganolfannau crefydd ac adloniant.

Mae sôn am siopau yn yr ardal yn cau eu drysau yn y dyfodol agos, chwech neu saith, medda nhw. Dyna "golli" eto. Beth fydd ar ôl i gynnig i'r to ifanc sydd yn codi deudwch?

LLYWODRAETH LEOL - "TU HWNT I'R LLENNI"

Yn ei lyfr newydd "Tu Hwnt i'r Lleni" gan Arthur J. Evans, Cyn-Glerc Cyngor Dinesig, Llangedfni - olrhennir ei yrfa ddiddorol mewn llywodraeth leol yn ddwy hen sir Môn ac Arfon - hyd at y chwalfa fawr ym 1974.

Nid yn unig y ceir hanes twf tref Pen Cadlys Ynys Môn a chartref yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1983 ond hefyd casglodd yr awdur o ffynhonnell ei is-ymwybyddiaeth stôr o ffeithiau, atogfion a phrofiadau, a'u plethu gyda difrifol a'r doniol - o'r blynyddoedd cynnar yn ei ardal enedigol (mae'n frodor o Rostryfan), cychwyn ei yrfa gyda Chyngor Bwrdeistref Caernarfon ac yna Chyngor Gwledig Gwryfai cyn mynd i Llangedfni, gan lwyddo i gael defnydd cyfrol gwerth chweil. Ni welwyd ac ni welir cyfrol gyffelyb eto.

Y golygydd ymgynghorol yw'r Parch Dafydd Wyn Wiliam, MA, BD, MTh.

Mae gan nifer cyfyngedig a argreffir rwan, os am sicrhau'r gyfrol Anfonwch Archeb gyntad a bo modd gyda £4 i Olygydd Eco'r Wyddfa (os siec gwnewch yn daladwy i Eco'r Wyddfa) ac os oddi allan i gylchrediad y papur disgwylir y tâl cludiad. Peidiwch oedi.

EISTEDDFOD GENEOLAETHOL YNYS MÔN 1983



Mynnwch eich copi o'r Rhestr Testunau yn awr - cyn iddi fynd yn rhy hwyl!

Anrhegion guych o bob math i'r Eisteddfodwr brwd - siwmpwr a chrysau-T a chys arbennig... beirso a modurau allwedd... oll am bristol eithriadol o resymol!

Awyddus i fod yn y Pafiliwn yn ystod y Coroni neu'r Cadeirio? Hoffi gweld Drama neu ddydd yn ystod yr Wyl? Gwnewch yn sicr o'ch sedd heddiw!

TOCYNNAU CYFNOD o ddydd Sadwrn, Gorffennaf 30 i ddydd Sadwrn, Awst 6, 1983

Eisteddfod a Phafiliwn (nos)	£37.00 neu £31.00
Eisteddfod a Drama	£33.00 neu £27.50
Eisteddfod yn unig	£20.00 neu £16.00
Pafiliwn yn unig	£19.00 neu £16.00
Drama yn unig	£15.00 neu £12.50

TOCYNNAU DYDD

Dydd Sadwrn	£2.00 neu £1.50
Dydd Llun	£3.00 neu £2.50
Dydd Mawrth	£4.50 neu £3.50
Dydd Mercher	£3.00 neu £2.00
Dydd Iau	£4.50 neu £3.50
Dydd Gwener	£3.00
Dydd Sadwrn	£4.50 neu £3.50

TOCYNNAU NOS (DRAMA)

Nos Sadwrn	£3.00 neu £2.50
Nos Lun	£3.00 neu £2.50
Nos Fawrth	£3.00 neu £2.50
Nos Fercher	£3.00 neu £2.50
Nos Iau	£3.00 neu £2.50
Nos Wener	£3.00 neu £2.50
Nos Sadwrn	£3.00 neu £2.50

TOCYNNAU NOS (PAFILIWN)

Nos Sadwrn	£2.00 neu £1.50
Nos Sul	£3.50 neu £3.00
Nos Lun	£2.50 neu £2.00
Nos Fawrth	£3.00 neu £2.50
Nos Fercher	£3.00 neu £2.50
Nos Iau	£3.00 neu £2.50
Nos Wener	£3.00 neu £2.50
Nos Sadwrn	£3.00 neu £2.50

Mwy o fanylion am y tocynnau, anrhegion a'r Rhestr Testunau oddi wrth

Swyddfa'r Eisteddfod,
Y Stad Ddiwydiannol, Llangedfni,
Ynys Môn LL77 7JA
Ffôn Llangedfni 724444

MWY O FIRI'R FFUG EISTEDDFOD



BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED — Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, trefnwyd gornest "Call My Bluff" gan Moira Ellis. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jennie Hughes ac fe'i enillwyd gan Jinnie Williams. Darparwyd y te gan Miss Mair Griffiths a Betty Owen.

CLWB Y MAMAU — Eto, yn Nhŷ Glas yn ystod y mis, cafwyd noson ddifur iawn yng nghwmni Mrs Dorothy Jones o Gwm-y-glo, yn sôn am ei gwaith gyda mudiad Doctor Barnardo ac yn dangos ffilmiau. Darparwyd y te gan Jinnie Williams a Jennie Hughes a rhoddwyd anrheg y mis gan Rhian Jones ac fe'i enillwyd gan Jinnie Roberts. Rhoddwyd croeso i aelod newydd, sef Mrs Mair Griffiths.

LLONGYFARCHIADAU i Janet Elizabeth Jones, 5 Tremeilian ar ei llwyddiant yng Ngholeg Technegol Gwynedd, lle derbyniodd radd 'B' mewn arholiad Safon 'O' yn y pwnc Gofal Plant a Datblygiad Dynol.

CLWB PEDWARUGAIN — enillwyd mis Ionawr — 7.1.83 — 1. Margaret Jones, 2. Mrs Hasson, 3. Phyllis Gors, 14.1.83. 1. Gwilym Jones, 2. Sheila Williams, 3. Eifion Roberts. 21.1.82. 1. Moira Ellis, 2. Seth Thomas, 3. Elwyn Sir Fôn. 28.1.83. 1. Helen Roberts, 2. Aled Green, 3. Mike Collins.

DALIER SYLW — Drwy garedigrwyd clwb pêl-droed Llanberis, mae bws wedi ei threfnu yn rhad ac am ddim ar gyfer 'Noson o Gân' yng nghwmni Gari Williams a Trebor Edwards, yn y Plaza ym Mangor ar Fawrth 27. Mae tocynnau ar gael am bris o £1.50 oddi wrth casglwyr clwb pedwarugain.

LLONGYFARCHIADAU calonnog i Mr David Oliver Williams, mab Mrs Evelyn Williams, Llys Arfon ar gael dyrchafiad yn ei swydd.

Ar Chwefror 16 eleni, cyhoeddwyd canlyniad etholiad i benodi Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb COHSE, a chyda mwyafrif o 20,000 dewiswyd ef i lenwi'r swydd gyfrifol yma. Cymer yr awennau ym mis Hydref, ac yn ddi-os, fe bery yn yr ymdrech frwd i ennill gwell amodau gwaith i'r nyrus y mae'n eu cynrychioli.

Addysgwyd Mr Williams yn Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Ramadeg Brynrefail gynt. Ar ôl gwasanaethu yn y llynges yn ystod y rhyfel,

Llun cyntaf; — perfformiad bale Bethel — golygfa o 'Coleg' S4C.

Ail lun; — bale Penisarwaun — 'Mil o Alwadau'.

Trydydd; — bale Llanrug — 'Madam Wen'.

Roedd y tri trŵp yn gyd-fuddugol.

Pedwerydd lun; — meimio i record — 'Teulu Shep', Llanrug.

Isod, chwith; yr 'eneth fach' a ddaliodd ati yn y gystadleuaeth adrodd i rai dan 5 oed!

Isod, canol; bu'n rhaid 'dragio' hwn i helpu cwmni bale Llanrug.

Isod; 'Yr hen ddyn budr a'i fodan handi' o Benisarwaun yn paratoi i fynd i'r bath i ganu deuawd.



dechreuodd ar ei yrfa fel nyrs yn Ysbyty Gogledd Cymru Dinbych ym 1949.

Clywyd ei lais droeon ar y cyfryngau mewn rhaglenni fel 'Ar yr Awr', 'Post Prynhawn', 'Dan yr Wyneb' a 'Nabod y Teip'. Dymunwn yn dda iddo ef a'i wraig, Kathleen o Ddinorwig gynt, yn y cyfnod prysur sydd o'u blaenau.

STORI WIR!

'Rhen Dic eisteddai wrth y tân ei ben yn foel a'i wedd yn wyn, A deigr yn ei lygaid ef Ymsoniai ef wrth Gwyn. "Bu imi drŵs o Marks & Sparks Ond nawr rwyf heb ddim un rhyw leidar ddaeth rhyw noson oer A'm gadael 'noeth fy nhin.

Mae wedi mynd oddi ar y lein Gwyn bach, beth wnaif yn awr rhaid iti fynd ar adain chwim i shop rhen Eric yn y Cwm Ni fedraf symud tra fel hyn tra'n meddwl am fy nhrŵs bach gwyn

'fallai fod o nawr yn saff ynghlwm am ganol rhyw hen gath."

Cyfaill!

NANT PERIS

PROFEDIGAETH — Wedi i newyddion ar gyfer yr Eco Ionawr fynd i'r wasg daeth y newydd trist am farw Mrs Lowri Evans, Bungalows Plastirion, Llanberis. Bu Mrs Evans yn byw yn Cwmwrach yma yn y Nant am flynyddoedd ar ôl ei phriodas ond ar ôl colli ei phriod symudodd i fyw i Lanberis. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent y Nant wedi gwasanaethu yn Eglwys St. Peris. Cydymdeimlir ag Ellis ei mab a Greta a Jean ei merched, yr wyron a'r perthnasau i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH

**WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PWYLLGOR Y CARNIFAL – Nos Lun, Chwefror 21 cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol y carnifal i benodi pwyllgor newydd. Fel arfer, ni chafwyd fawr o gefnogaeth. Felly, penderfynwyd nad oedd yn bosibl cynnal wythnos o weithgareddau gyda'r pwyllgor presennol.

Er mwyn sicrhau bod y pensïynwyr yn cael eu parti Nadolig mae'r pwyllgor wedi penderfynu cynnal diwrnod carnifal, raffl a helfa drysor ar nos Fawrth.

Gofynnwn i fudiadau eraill yn y pentref a hoffent gynnal gweithgareddau er eu budd eu hunain ar y nosweithiau eraill. Y rhestr yw – Cymantfa Ganu, Tombola, Disgo, Noson Goffi, Mabolgampau neu unrhyw beth arall.

Os oes diddordeb gan unrhyw fudiad, cysylltwch â Mrs Owena Parry, Ael y Bryn, Tai Tan y Coed, Llanrug ar ôl Mawrth 4.

DYWEDDIAD – Mr S.B.R. Hughes a Miss M.J.E. McLaughlin. Cyhoeddir dyweddïad Shôn Beaufort Rowland mab ieuengaf y Dr a Mrs D.R. Hughes, Plas Pant Afon, Llanrug gyda Michelle Joan Elizabeth, unig ferch Mr a Mrs D.P. McLaughlin, Brackenhurst, Forest Road, Sandiway, Northwich, Sir Gaer. Dymunwn bob hapusrwydd i Shôn a Michelle.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Ivor Williams, Gwelfryn ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, blodau a'r nifer fawr o gardiau a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU – i Mrs Hannah Jones, 1 Bryn Coch ar fod yn hen nain. Ganwyd merch i'w hwyres yn Awstralia.

Y SEINDORF – Llongyfarchiadau i Paul Hughes, David Jacobs a Berwyn Owen ar eu llwyddiant mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd gan Gymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru ym Mangor ar Chwefror 12. Daeth Paul yn gyntaf am yr ail flwyddyn yn olynol yn yr unawd dan 12 allan o 27 o chwaraewyr. Daeth David, sydd heb fod yn aelod llawn o'r seindorf eto, yn ail iddo.

Yn yr unawd 12-16 daeth Berwyn yn ail allan o 15. Yn yr adran 'ensemble' daeth yr wythawd o'r seindorf yn ail allan o 8 grŵp.

Cynhelir cyngerdd yn Theatr Seilo ar Fawrth 3, ynghyd â Seindorf Glofa'r Parlwr Du a Hogia Llandegai. Fe fydd y bws yn mynd o amgylch y pentref ac yn cychwyn tua 6.30 o'r sgwâr.

CYMDEITHAS LENYDDOL Capel Mawr – Cafwyd cwis dan ofal Mr Eifion Roberts, Nant-y-glyn. Mr Gwilym Rees Parry oedd yn cadw'r marciau. Diolchwyd i Mr Roberts am noson addysgiadol a hwyliog, ac i'r merched a roddodd y te sef Mrs Beryl Thomas, Gerallt a Mrs Betty Hughes, Gorffwysfa gan Mr Gwilym Rees Parry a Mrs Myfi Roberts. Llywyddwyd gan Mrs Nansi Roberts, Manod.

EISTEDDFOD FFUG – Nos Iau, Chwefror 10 dan nawdd y gymdeithas uchod cynhaliwyd Eisteddfod Ffug. Y beirniaid oedd y Parch A. Jones Williams, Rheithordy (Llenyddiaeth ac Adrodd) a Mr Arwel Jones, Llys Myfyr, Bethel (canu). Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol oedd yn cadw'r marciau. Y ddau gapten oedd Mr Myrddin Williams, Penterfyn a Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion. Llywyddwyd gan Mr

Emrys Owen, Hafan Elan. Cafwyd noson hwyliog dros ben a phawb wedi mwynhau eu hunain. Darparwyd lluniaeth i'r beirniaid gan Mrs Dora Jones, Y Fedwen a Mrs Gaynor Williams, Penterfyn. Diolchwyd i bawb gan y Parch W.O. Roberts a Mr J. Wyn Owen, Llain y Delyn.

CYMDEITHAS CHWIORYDD Capel Mawr – Nos Iau, Chwefror 4 cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs M. Evans, Lloc. Llywyddwyd gan Mrs Nansi Roberts, Manod ac estynnodd groeso cynnes i'r chwiorydd oedd yn bresennol ac anfon cofion at y rhai oedd yn wael gan ddymuno gwellhad buan iddynt. Diolchodd hefyd i'r rhai a anfonodd arian er yn methu bod yn bresennol.

Croesawyd Mrs Davies, Plas Gwyn yn ôl o'i gwyliau yn Awstralia. Balch hefyd oeddyd o weld Miss Owen, 3 Hafan Elan a Mrs L. Jones, 15 Hafan Elan wedi gwella ar ôl eu gwaeledd. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Eileen Davies, Llys Alaw a Mrs Carys Parry, Gwynant. Diolchwyd iddynt gan y llywydd. Cynorthwywyd gan Mrs Beryl Thomas, Gerallt yn absenoldeb Mrs Carys Parry. Darllenwyd y fantolen am y flwyddyn gan Mrs Dorothy Jones, Tegerin a chytunwyd i roddi rhodd deilwng iawn at waith yr eglwys. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 3.

BABAN NEWYDD – Llongyfarchiadau i Philip a Beryl (gynt o Ogwen) ar enedigaeth merch, Meleri Mair, wyres gyntaf i Mr a Mrs R. Jones, Ogwen.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Chwefror 8 yn Ysgol Gynradd, Llanrug cyfarfu Cangen Llanrug o Ferched y Wawr. Llywyddwyd gan Mrs Ann Llwyd Jones, llywydd y gangen.

Llongyfarchwyd Mrs Mair Jones ar enedigaeth ei hwyres gyntaf, Meleri Mair, a Mrs Beryl Thomas ar enedigaeth ei hail wyr, Aled. Cydymdeimlwyd â Mrs Margaret Parry ar farwolaeth ei thad yng nghyfraith.

Cyfeiriwyd hefyd at Mrs Gwladys Medwen Jones, a Mrs Megan Williams, y ddwy wedi derbyn triniaeth lawfeddygol i'w llygaid. Dymunwyd adferiad buan i'r ddwy.

Rhaglen i sôn am 'Hen Bethau' oedd wedi ei threfnu ar gyfer y noson. Daeth Mrs Barnard, Mrs Lovatt, Mrs Margaret Parry, Mrs Bethanne Williams, Mrs J. Williams, Mrs Menna Williams a Miss Megan Humphreys â hen bethau i'w dangos a sgwrsio amdanynt, a'u cysylltu â digwyddiadau hynod, perthnasol iddynt. Yn absenoldeb anorod Mrs G.M. Jones, daeth Mrs Bethanne Williams a'i chyfraniad hi a darllen yr hanesyn amdano. Treuliyd noson ddifyr a diddorol ymysg yr hen bethau.

Diolchwyd i'r siaradwyr ac i'r chwiorydd baratodd y baned gan Miss Phyllis Ellis. Rhoddwyd y te gan Mrs Catherine V. Jones, Mrs Katie Pritchard, Mrs Ceinwen Roberts, Mrs Megan Williams a Miss Megan Humphreys. Enillwyd y raffl gan Mrs Lovatt.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Anabl, ac o'r Pwyllgor Rhanbarth, a darllenwyd cylch-lythyr oddi wrth Mrs Mair Elvet Thomas.

Cynhelir cyfarfod Mawrth yng Ngwesty Foelas ar Fawrth 8.

PLAID CYMRU – Nos Sul, Chwefror 20 cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen dan gadeiryddiaeth Phyllis Ellis. Talodd deyrnged i'r diweddar Emlyn Jones, Parc Isa a oedd yn un o

aelodau cynharaf y Blaid yn Llanrug. Soniodd am ei deyrngarwch ac am ei waith di-flino fel trysorydd y gangen. Cyflawnodd Emlyn y gwaith yn effeithiol, hyd yn oed yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan oedd gwaeledd yn ei lethu. Cydymdeimlwyd â'i chwaer, Miss Enid Jones.

Etholwyd Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon yn drysorydd. Trefnwyd rhaglen o weithgareddau amrywiol i'w cynnal yn y pentref yn ystod y misoedd nesaf.

BABAN NEWYDD – Ganwyd mab i Donald a Catherine Burgess (merch Mr a Mrs Lovatt, Brwynog) yn Canada ar Chwefror 22 (brawd bach i Shaun). Mae Mrs Lovatt ar wyliau ar hyn o bryd.

CYMDEITHAS UNDEBOL PONTRHYTHALLT – Nos Fawrth, Chwefror 15, ymunodd aelodau o Gymdeithas y Waunfawr â ni i gymryd rhan mewn cwis. Yr holwr oedd Mr Dafydd Whiteside Thomas. Cafwyd amrywiaeth o gwestiynau, a bu cryn hwyl mewn atebion. Y llywydd oedd Mr T.W. Thomas ac ef hefyd a dalodd y diolchiadau, ynghyd â Mrs Vaughan Jones a Mrs Gweneirys Jones ar ran aelodau Waunfawr. Darparwyd ymborth blasus i'r gwesteion. Mewn cyfarfod blaenorol, cafwyd dadl cydrhwng pedwar o'r aelodau ieuainc, sef Mrs Nant Roberts, Mrs Amranwen Lynch, Mr Iwan Roberts, a Mr Dafydd Whiteside Thomas. Llywyddwyd gan Miss Megan Humphreys, a thalwyd y diolchiadau gan Mrs W.A. Jones. Cynhaliwyd y cyfarfod olaf ar Fawrth 1af, trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi

yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, gyda Mrs Menna Ellis o'r Rhyl yn wraig wadd.

GWELLA – Da deall fod Mrs Sally Jones, 29 Bro Rhythallt, a Mrs W.A. Jones, Y Dalar Deg yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

DYMUNIR adferiad iechyd i Mr Owen Humphreys, 16 Bro Rhythallt, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Miriam Davies a'r teulu, 2 Stad Minffordd yn eu profedigaeth o golli mam.

LLONGYFARCHION i Mr Gareth Roberts, Gregynog ar gael ei ddyrchafu i swydd newydd fel Prif Swyddog Cynllunio Arfon.

**SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU**

T. CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: Llanberis
870205

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



**Gwesty'r
Foelas**

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

PENSIYNAU YSWIRIANT MORGAIS

Gwasanaeth newydd i bobl y fro

Robert Jones a'r Cwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant a Morgais

**SIOP ISAF, 7 HEOL-Y-DŴR,
PENYGGROES**

Ffôn: 880027 (24 awr)

Codwch y ffôn heddiw am bris
Mae gennym Gynlluniau Pensiwn, Bywydau,
Yswiriant Eiddo, Adeiladau, Cyfrifoldebau, Ceir etc. ar
gyfer pawb

ASiantaeth Leol Cymdeithas Adeiladu'r Halifax

EISTEDDFOD YR URDD NEDD AC AFAN, 1983

YDACH chi'n dod i'n heisteddfod ni y Sulgwyn nesaf? Rydw i'n gobeithio gweld cannoedd o ddarlennwyr *Eco'r Wyddfa* yn dod. Mae yma arolwg am amser ardderchog, i fod.

I ddechrau, nid mewn pabell ac ar gae mwdlyd y cynhelir hi. Yn hytrach, bydd hi yn Neuadd Chwaraeon Lido Afan, ysgubor eang, glud, gyffyrddus, hefo llawr caled, a glân. Yn y cefn, mae cae pêl-droed a digonedd o le ynddo, i'r arddangosfeydd a'r stondinau, ac yn rhan o'r adeiladau, mae un o byllau nofio dan do mwyaf Cymru. I chwi sy'n dod â'ch carafan, mae gwersylloedd hwylus, o fewn tafliaid carreg i Faes yr Eisteddfod.

Ymhellach, os, ac os fawr ydi hi, - os byddwch chi wedi blino ar eisteddfota, mae traeth Aberafon o dywod euraidd yn ymestyn am yn agos i bedair milltir, o'ch blaen. Yma, gellwch ymlacio ar ôl cystadlu, drwy dorheulo ar lan y môr, gwyllo llongau mawr yn cario haern crai i borthladd y Gwaith Dur, neu fwynhau'r olygfa tuag at y Mwmbwls ac Abertawe, a Dyfaint, bum milltir ar hugain dros ddŵr Môr Hafren.

Mae Afonydd Nedd ac Afan yn cydreddeg rhyw bum milltir ar wahân, y gyntaf o'r Fforest Fawr, a'r ail o Fannau Forgannwg. Pan welais i nhw gyntaf, roeddynt yn ddu o lwch mwynfeydd, ond erbyn heddiw, â'r pyllau wedi cau, maen nhw cyn laned ag Afonydd Seiont a Gwyrfa. Dyma i chi ddau ddyffryn tlws sy ers blyneddod wedi uno i wneud un o gylchoedd mwyaf brwdfrydig Mudiad yr Urdd. Cyfyd Afon Nedd yn agos i Ystradfellte, heb fod ymhell o Benderyn. (Rhoddwyd corff Dic druan, ar ôl ei grogi, i orwedd ym mynwent Eglwys Mair yn Aberafan.) Dros y ceunentydd, (scwd ydy'r enw lleol), rhed heibio Cwm Nedd, Resolfen a Chastell Nedd, i'r môr ym Mae Abertawe, drwy ddyffryn rhamantus. Yn yr un modd, o Graig y Llyn, man uchaf Bannau Morgannwg tardd y Corrwg a'r Gwynfi i ymuno yn y Cymmer, lle bu Iolo Morgannwg yn eisteddfota. Rhuthra i lawr trwy ddyffryn cul coediog, heibio Cynon, Pontrhydyfen, Cwmafan ac i'r môr yn Aberafon neu Port Talbot, yr enw mwyaf adnabyddus. Dyma i chwi ddwy ardal sy'n frith o bethau diddorol. Yn Nyffryn Nedd, gellwch ddewis rhwng cerdded ar Sarn Helen, mynd i weld yr hen abaty neu dreulio oriau difyr ym Mharc Natur Pencynnor, ac mae'r hen dre ei hun, hefo'i siopau llawn yn werth ymdroi iddi.

Yn yr un modd, gellwch fynychu Canolfan modern Afan, neu fynd trwy Cwmafan, cartre Afan Thomas a roddodd i ni donau trawiadol, fel Llanbaglan a'r Millwheel. Yma hefyd y bu'r Parch Meurig Owen, mab Jonah Owen, yn weinidog am flynyddoedd. Mae'r Cwm yn dal i werthfawrogi ei waith ymroddgar. Wedyn ymlaen i Bont Rhydyfen, man geni Richard Burton, yng nghysgod yr hen bont ddŵr, sy'n gant a hanner o oed. Dyma'r pentre lle mae Ysgol Gymraeg Ardal Afan, ffrwyth brwdfrydded criw bach o Gymry Cymraeg rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, sy erbyn heddiw yn cael cefnogaeth llu o Gymry Saesneg, sy am i'w plant gael y fraint o siarad Cymraeg. Ewch yn

eich blaen i Cynnon i'r Amgueddfa Lofaol, lle gellwch dreulio prynhawn yn olrhain hanes glowyr y de, ac yn cerdded trwy goedwig y Comisiwn. Yn ogystal, ar gyrrau Port Talbot, mae Parc Margam lle y gellwch ymddiddori yn adfeilion yr hen abaty a'r cerrig Celtaidd, edmygu adeiladwaith yr Orenfa, neu grwydro ymysg y ceirw yng ngogoniant natur, i fyny i olion yr hen Gaer Oes y Cerrig, ar ben Mynydd y Castell.

Ond yr Eisteddfod sy'n bwysig. Sut yn y byd y gallwn ei chynnal gyda chymaint o bethau i ddenu plant a phobl o'r Maes. Traeth o dywod melyn, yr ochor arall i'r ffordd, meysydd parcio sych pwrpasol, ac i wneud pethau'n waeth, mae ffair ar drothwy'r Lido.

Da gwybod bod eisteddfodwyr yr Urdd bob amser yn bur ac yn driw. Iddyn nhw mae diwylliant Cymru yn amlochrog, ac yn cynnwys hanes a bywyd Cymru, yn ogystal â Sain, Cerdd a chân.

Ddwywaith, daeth i'm rhan i longyfarch tim Aelwyd Cwmafan am ennill Cwpan Pant y Fedwen, ac ar draul pwy? Wel, ar drael Aelwyd Llanberis, gwaetha'r modd, ond diolch i chi am y darian lechen a roesoch i ni yn 1976. Mae hi mewn lle amlwg yn ein hadeilad, bob amser.

Edrychaf ymlaen at weld *Eco'r Wyddfa*, mis Gorffennaf nesa', yn

llawn o ddarluniau buddugwyr yr Eisteddfod, ac i gyd yn dod o Ddyffryn Seiont. Pob lwc.

Rwy'n sicr y bydd aelodau'r Urdd yn yr ardal yn gwneud ymdrech arbennig yn eu steddfodau lleol ar ôl darllen y gwahoddiad hwn i fro'r Eisteddfod gan Goronwy Owen. - Gol.


CLWB ERYRI

Cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi Clwb Eryri yng ngwesty Gwynedd, Llanberis nos Wener, Mawrth 4. Y gŵr gwadd fydd R. Alun Evans., BBC a cheir yr adloniant gan Annette ac Evan Bryn Roberts, Dinorwig.


Dylai'r cystadleuwyr yng nghystadleuaeth y parodi anfon eu cynhyrchion i'r Ysgrifennydd ar unwaith. Llywydd y clwb eleni yw Mr Emlyn Davies, Waunfawr.

RHODDION

- £5 - Di-enw, Llanberis; Miss A.M. Williams, Brynrefail.
- £2 - Mrs I. Griffith a'r teulu, Penisarwaun
- £1 - Mr a Mrs T. Maxwell, Llanberis; Mrs C.J. Jones, 33 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, Deiniolen; Di-enw, Llanberis.



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

NOSON O GÂN

Gyda GARI WILLIAMS yn cyflwyno -

TREBOR EDWARDS : MARIAN ROBERTS

TOM ALAN A'I FAND

RHIAN OWEN a SIAN GIBSON

ANNETTE ROBERTS a JENNY JONES (Bangor)

CINEMA'R PLAZA : BANGOR

MAWRTH 27ain, 1983

DRYSAU'N AGORED 7.15 P.M.

DECHREUIR 7.45 P.M.

Yr Elw at C.P.D. Llanberis

TOCYN : £1.50

Ar gael gan Lal Jones, Llanberis 870335, un o'r pwyllgor neu yn Y Plaza

YSGOL WNÏO PENRHOS, LLANRUG

RHAI o gartrefi hynaf y Rhos Rug yn Llanrug yw Penrhosddu sydd ar gŵr y Lôn Groes o'r Sefydliad Coffa. Yma, ym mhedwar degau'r ganrif ddiwethaf, roedd tri theulu yn byw. Yn ôl Cyfrifiad 1841, roedd John Griffith ac Ann ei wraig yn magu teulu o un ferch a thri bachgen sef Jane, David, John a Wiliam ar gyflog prin llafurwr amaethyddol.

Priododd Jane Griffith ag Evan Williams, a hanai o Laniestyn yn Llŷn. Gwas fferm yn Eithin Duon a fuasai gynt ond gwrthododd Jane ei briodi ac yntau heb grefft. Dyna pam y sbardunwyd ef i fentro i Lerpwl yn y lle cyntaf i'w brentisio yn saer coed.

Bu iddynt bump o blant, dau fab a thair merch. Codwyd yr hen fwthyn ym Mhenrhosddu a'i wneud yn ddeulawr, gan ychwanegu gweithdy saer coed wrth ei dalcen, ar gŵr yr ardd.

Yno yn 1893, ar ôl marw ei thad, y cychwynnodd Catrin Ann, y ferch hynaf, ysgol wnïo. Gan iddi dreulio blynyddoedd ei hieuenctid gyda'r teulu tua Lerpwl cawsai gyfle i'w chymhwyso ei hun fel gwniadreg. Cynhaliat ei dau frawd, Ifan a Wil, fusnes saer coed yn y gweithdy gerllaw. Gwelir oddi wrth y rhestr fod ganddi gryn ugain o brentisiaid yn ystod blynyddoedd ola'r ganrif. Mae enwau rhai ohonynt efallai yn gyfarwydd i hen drigolion Llanrug. Gwelir enwau dwy ferch y gweinidog, y Parch J. Eiddon Jones, Llys Eiddon, gyda llythyr cymardwyaeth i un ohonynt, Miss Lilly B. Jones, pan ymgeisiai am swydd.

Cofiaf fod fy mam, Alice Davies, Ceunant yn brentis yno a chlywais lawer o hanes yr ysgol wnïo ym mharlwr Penrhos.

Gan fod gwasanaeth ar gyfer angladdau i'w gael o weithdy'r seiri coed a diwyg galaru yn cael ei weithio yn y parlwr, gellir dychmygu'r prysurdeb a fyddai yno ar achlysuron felly. Tra byddai'r merched yn fawr eu brys yn torri, pwytho, ffitio a pheiriannu i gael y 'mownin' yn barod mewn pryd, deuai Ifan neu Wil trwodd at dân y gegin bach i stemio a phlygu'r coed i ffurf arch. Gellid synio am yr hwyl ynghanol y fath brysurdeb a'r seiri yn plefian gyda'r fath ddewis o genod.

Pan fyddai pethau yn o wyllt, byddai'n rhaid i'r prentisiaid galluocaf eu dawn aros i weithio yn hwyr y nos, i gael y gwaith yn barod.

Byddai swper hwyrol yn cael ei baratoi yn y gegin bach, a mawr fyddai'r disgwyl am y wledd o draed moch o Siop Morus Azariah a chabaitis o ardd Penrhos. Clywais fel y bu i Sera Penlon erfyn yn daer am gael aros y nos i bwytho, er gwaethaf anfodlonrwydd Malan Jones ei mam. Gwyddai'n dda y byddai gwledd a sbort i'w gael yn yr oriau mân heb fod



Miss Catherine Ann Williams, Penrhosddu, Llanrug — a ofalai am y dosbarth gwnïo.

o dan lygad barcud ei rhieni ac eto ar aelwyd ei chyfnither.

Dim ond un o'r ysgol wnïo honno sy'n fyw erbyn hyn ac mae hithau mewn oedran teg. Dywed Mrs E.J. Ellis, Tai Bryngwyn, mai hi a Myfanwy Jones, Hermon oedd y ddwy olaf i gael eu dysgu i wnïo yn 10 Tai Bryngwyn lle symudodd Catrin Ann yn 1907. Roedd hyn yn niwedd oes y wniadreg, â hithau yn wael ei hiechyd, ar ddechrau cyfnod y Rhyfel Mawr Cyntaf.

Arferai'r ddwy gael mynd ar neges i'r hen ferch, yn eu tro; a chofia Mrs Ellis un amser cinio i'r ddwy ohonynt grwydro dros y Bwlch at Benllyn i weld ymgais i chwilio am gorff rhyw druan a foddodd yn y llyn.

Buont yno drwy'r pŵn heb sylweddoli faint oedd hi o'r gloch a

ffwrdd â hwy am y Bryngwyn. Sôn am dafod a gawsant gan yr hen ferch drannoeth am chwarae triwant! Myfanwy oedd diweddar briod y Prifardd Gwilym R. Jones, Dinbych.

Enwau cyfarwydd yn y rhestr a gofir hefyd oedd Miss C.J. Parry, Llys Dulas a Miss Kate Ann Griffiths, Hermon. Gwraig a fu byw i oedran teg yn Ontario, Canada oedd

Harriet Williams, Gors, Llaniolan. Priododd Owen Jones, Bryn Llan, Llanrug a magodd deulu lluosog, yn feibion a merched. Symudodd y teulu i Galt, Ontario yn 1923 ac mae'r plant a'u teuluoedd yng nghiffiniau Toronto o hyd.

O sylwi ar y rhestr cawn fod pedair geneth a fu farw'n ieuanc.

R.W.

Rhestr o'r holl enethod a fu'n ddisgyblion i Miss C.A. Williams yn Ysgol Wnïo Penrhos.

1893

Sewing Maids of Miss Catherine Anne Williams

	Paid	Age
1. Jane Dora Jones, Shop, Bethel	10s	15
2. Elizabeth E. Jones, Penisarwaen	10s	20
3. Jane Hughes, Disgwylfa, Llanrug	5s	18
4. Alice Davies, Ceunant, Llanrug	£1.10s	14
5. Sarah Jones, Penlon, Llanrug	1.10s	14
6. Lilly Jones, Llus Euddon, Llanrug	10s	21
7. Catie A. Jones, Llus Euddon, Llanrug	10s	18
8. Catherine Jane Parry, Llus Dulas, Llanrug	£1.10s	15
9. Cate Ann Griffiths, Hermon, Llanrug	£1.15s	15
10. Feby Williams, Gors Farm, Llaniolan	5s	20
11. Catherine Jones, Pontrhythallt, Llanrug	5s	21
12. Harriet A. Williams, Gors, Llaniolan	5s	18
13. Harriet Jones, Brynrefail	5s	16
14. Maggie Hughes, Plastirion, Llanrug	10s	15
15. Mary Elizabeth Jones, Cae Poeth, Llanrug	died 5s	15
16. Jane Roberts, Penisarwaen	10s	14
17. Lizzie Hughes, Plastirion, Llanrug	10s	14
18. Mary Griffiths, Caedicwm, Penisarwaen	died 10s	23
19. Mary Ann Jones, Tŷ Club, Llanrug	died 10s	16
20. Mary Thomas, Tan Dderwen Farm, Llaniolan	10s	16
1900	Paid	Age
21. Mary Owens, Hafod Ryffudd, Ceunant	5s	14
22. Maggie Jones, Llaingro, Llanrug	5s	15
23. Hannah Roberts, Llanrug	5s	14
24. Margaret Ann Edwards, Saron, Bethel	10s	14
25. Annie Hughes, Saron, Bethel	15s	16
26. Nell Jones, Saron, Bethel	10s	14
27. Alice Thomas, Bethel	5s	14
28. Sally Roberts, Pontrhythallt, Llanrug	5s	14
29. Nell Pritchard, Saron, Bethel	10s	14
30. Cate Jones, Erw Saron, Bethel	5s	16
31. Mary Williams, Tŷ Capel, Bethel	10s	14
32. Maggie Williams, Caragyfran, Cwm-y-glo	5s	14

1907 at 10 Bryngwyn, Llanrug

	Paid	Age
33. Jinney Jones, Caepoeth, Llanrug	5s	17
34. Gwladus Jones, Hafod Gregog, Llanrug	15s	15
35. Mary Jones, Disgwylfa, Llanrug	5s	18
36. Kate Williams, Cwm-y-glo	10s	15
37. Jane Williams, Pontrhythallt	5s	14
38. Mary Ellen Jones, Penisarwaen	died £1	20
39. Mary Evans, Penrygaer, Llaniolan	5s	14

1909

40. May 12th. Miss Maggie Evans, Pool Street, Cwmyglo	5s	24
---	----	----

1910

April 26th. Cate Mate Ellis, Tanycoed, Llanrug	15s	15
41. to May 16th.		
42. April to July 16th. Jinney Parry, Brynfedwan Park, Llanrug	15s	15
43. do. Jinney, Hughes, Penrhosddu, Llanrug	5s	15

1913

44. April 8th. Lizzie Jane Jones, Bryngwyn, Llanrug	5s	14
45. do. Jane Ellen Pritchard, Bynglo, Llanrug	10s	16
46. do. Myfanwy Jones, Hermon Terrace, Llanrug	5s	15

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

HARRI BACH 1931

Bu ystafell y barber Henry Parry, Disgwylfa, Llanrug yn ysgol dda i bawb ddeuai yno. Yr oedd Harri Bach fel y galwem ef o anwydeb yn sgolor ac yn barod i rannu'r wybodaeth a gasglai gyda phawb oedd yn barod i wrando. Bu'n athro Ysgol Sul ffyddlon ym Mhontrhythallt. Bu'n ddefnyddiol iawn yn yr ardal mewn aml gyfeiriad. Fel hyn y canodd fy nhad Er Cof amdano:

Am drin pen yn amgenach - a thwylio
Brithylliaid a'i blufach,
Neu lunio gèn yn lanach,
Her i bawb roi Harri Bach.

G.R.

Ail-luniodd ein glawleni, - a mynych
Gymwynas wnaeth inni:
Gwael enwair gâi 'i haileni,
O'i law fawr hael i loyw fri.

G.R.

Un medrus ei ymadrodd - yn ei gell
"Tynnai goes" gwyr anodd:
Ein dadl hir yn glir iawn glodd
Hwn a'i synnwyr a'n swynodd.

G.R.

Frawd doniol difrad, tyner, - oedd iraidd
Ei eiriau a'i dymer:
Nid byrbwyll enaid barber
A garai naws geiriau Ner.

G.R.

Yma nid yw mwy, na'i "dwrn",
Dunos ydyw nos Sadwrn!

Glan Rhyddallt

OWAIN PERIS 1933

Y mae dechrau Mawrth yn dwyn atgofion i ni am Owain Peris. Bu Owain Peris farw Mawrth 10 1933 yn 74 mlwydd. Brodor o'r Fachwen ydoedd - mab i Owen Jones Dinorwig. Yr oedd rhyw ysfa gwneud englyn yn y teulu. Aeth Owain Peris i weithio i Lannau Mersi adeg y Rhyfel Mawr ac yno y diweddodd ei oes. Yr oedd yn englynwr medrus, a daliodd i ddyfeisio cynghanedd hyd ei ddiwedd. Wele enghraifft o'i waith.

Y PASG

Er mawr loes y groes, gwir yw - codi a
Wnaeth Ceidwad dynolryw;
Gwir roddwn gywir heddiw
Sain o fawl - mae lesu'n fyw.

O.P.

TWNEL MERSI

Tanodd y rhed y twnel - am orsaf
O dan Mersi'n ddiogel:
Tramwyfa gyfa ddi gél,
Lle bu'r tywod - llwybr tawel.

O.P.

HELYGEN

Un hardd ei brig, iraidd bren - anwastad
Ystwyth yw'r Helygen:
Ger y ffos gwyr ei phen,
Sŵn wylo sy'n y wialen.

O.P.

CADAIR FREICHAU

Gorffwysfa lana luniwyd - lawn o hedd,
Lonna hun a breuddwyd:
Yng nghof hon y galon gwyd,
Siriolaf gysur aelwyd.

O.P.

LLYTHYR

Is amlen beth yn symlach - yn agor
Ei neges yn gliriach?
Gwefr annwyl ei gyfrinach
Llith i'r byw yw'r llythyr bach.

Owain Peris

Tŷ TO GWELLT 1926

Un tro yr oedd Eifion Wyn yn methu gorffen ei englyn i foddioni ei farn ef ei hun fel petai. Trawodd ar ei gyfaill Carneddog a gofynnodd am help i orffen yr englyn. Gwnaeth Carneddog linell i'w orffen a daeth Eifion Wyn yn gyfartal gyda George Rees, Llundain am y wobr gyntaf. Yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926 y bu hyn, Tŷ To Gwellt oedd y testun. Wele'r ddau englyn:

Dŷ f'hendaidd llwyd ei fondo - a'i glydwch,
O grefft gwledig ddwylo:
Ceid byw diddan dan ei do,
A'r heniaith oedd bêr yno.

Eifion Wyn

A'th frig gwellt a'th frigau can - ti ydoedd
I'n teidiau'n hoff drigfan:
Hen fwth ein hatgof weithian,
A hwy yn llwch yn y llan.

George Rees

GWEDDI AM HEDDWCH 1951

Enillodd Mr Robert H. Parry, Bedlinog, De Cymru, y wobr gyntaf am gyfansoddi Emyr ar y testun 'Gweddi am Heddwch'. Yn Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn, Meirion y bu hyn ar 26 Mai 1951. Yr oedd 24 yn ymgeisio. John Eilian oedd y beirniad. Brodor o'r Waunfawr oedd Robert Parry. Yr oedd ef yn fab i Hugh Parry, Gorffwysfa. Wele'r Emyr buddugol - i'w ganu ar y dôn 'Llef'.

Mae hiraeth lesu dan fy mron
Am iti eto rodio'r don,
Môr tonnog amgylchiadau'r byd,
A'i ymdawelu'n llwyr i gyd.

Mae miwsig yn dy eiriau pur,
Sy'n troi yn falm ar bob rhyw gur,
A llewyrch yn dy lygaid glân,
All roi y galon bur ar dân.

Rwy'n ymbil arnat, tyrd yn glau,
Tro gwrs y byd o'i boen a'i wae,
Anadla ar yr esgryn hyn
O rin y Gŵr fu ar y bryn.

Robert H. Parry

MARW YM MÔN

Byw yn hen, lle ces fy ngeni, - fy lôr,
Yw f'hiraeth a'm gweddi:
Yn naear Môn rho i mi
Wely tawel, rôl tewi.

T. Nicholson

BYW YM MÔN

Môn gynnes, man i ganu, - Môn weddaidd
Mae'n addurn holl Gymru:
Ym mhob llên ac awen gu
Sir Fôn sy ar i fyny!

Trebor Mai

CASGLIAD O DDEG O DDIARHEBION
CYMRAEG NEWYDD SBON DANLLI

1. Nid rhad y rhed y dŵr.
2. Gorau arf - arf miniog.
3. Amlwg fwg o fwthyn Sais.
4. Nid teulu dedwydd - teledu beunydd.
5. Heb ei fai - dyma fi!
6. Nes penelin na phen ôl.
7. Brawd mygyn yw peint o gwrw.
8. Y cyw a fegir yn uffern a elwir yn Kentucky. (Kentucky Fried Chicken!)
9. Mwyar poen, "Tystion Jehofa" wrth y drws.
10. Gorau tent, tent yng Nghent!

Ann Ifans
Penisarwaun

TROAD Y RHOD



Tybed faint o'r darllenwyr sy'n adnabod yr olwyn ddŵr hon?


Mae'n un o'r rhai uchaf y gwn i amdani yn ardal yr Eco, ond fel llawer melin arall, mae wedi "rhoi ei holaf dro" erbyn hyn. Os oes unrhyw un o'r darllenwyr yn gwybod ble mae, ac i ba bwrpas y defnyddiwyd hi, anfonwch ataf. Ceir mwy o hanes yn y rhifyn nesaf.

DRAENOG



CAMPAU CRIW CRAWIAU

Fe glywsoch am hynt a helnynt y plant rheini yn y llyfrau o'r un enw, ond criw go wahanol oedd yn Crawia, Llanrug y noson o'r blaen. Roedd yr heddlu yno yn gwneud ymchwiliad "ar y pryd" i achosion llosgi tai haf. Bu'n rhaid i amryw o foduron aros a chafodd y gyrrwyr eu holi - yn Saesneg wrth gwrs! Roedd yr heddlu yn cofnodi enw a chyfeiriad pawb a holwyd hefyd, er na roddwyd rheswm am hynny. Ni chafodd Draenog aros yn ddigon hir i wybod a oedd yr heddlu rywfaint elwach o'u campau.



Yr hen olwyn haearn erbyn hyn yn pwyso ar ochr yr adeilad - yntau fel hithau wedi mynd â'i ben iddo ac wedi gweld dyddiau gwell.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

Bistro


45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

1. "Y ... hwn", cerdd gan W.J. Gruffydd (5)
5. Tristwch (5)
7. Gwroniaid (5)
8. Ennaint (5)
9. Gwyllt (5)
10. Atgoffa rhywun am fai mewn soned liwgar (5)
11. Titw Tomos ... (3)
13. Minimwm (7)
16. Drws (3)
17. Dylsem gofio ei wraig hallt (3)
19. Griddfan (7)
24. Rhywbeth tebyg i 8 ar draws (3)
25. Anifeiliaid coslyd (5)
26. Llauer (5)
27. Argoel (5)
28. Erlid (5)
29. Offeryn Osian (5)
30. Darn o dir gwair wrth y tŷ (5)

I LAWR

1. Emosiwn (7)
2. Heb fod ar yr adeg iawn (9)
3. Dan a Dei gyda'i gilydd yn adfywio (6)
4. Cymru (6)
5. Y cyfnod sy'n arwain i'r Pasg (6)
6. Cosb ariannol (5)
12. Ar flaenau bysedd? Na - ond yn barod mewn pryd (6,3)
14. Twrw (3)
15. "Heb ei eni, heb ei ..."
18. Pymtheg ceiniog mewn hen arian (7)

20. Ymyl gwely (6)
21. Llenwi a gwagio'r ysgyfaint ag awyr (6)
22. Planhigion â dail pigog (6)
23. Fe dyf ar ben ambell un! (5)

Un llythren ydi ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfonwch eich cynigion i: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

ATEBION CROESAIR CHWEFROR

- Ar Draws** 1. Pegwn 5. Llafur 7. Egino 8. Mieri 9. Enllib 10. Difyr 11. Lôn 12. O.N. 13. Oblegid 17. Dydd 18. Inc 20. Undodwr 24. Co 25. Aer 26. Dewis 27. Ysgaw 28. Ifori 29. Ymuna 30. Padell 31. Diddig.

- I Lawr** 1. Pamffled 2. Gweinyddu 3. Neidio 4. Diofal 5. Lloerig 6. Robin 14. Bro 15. Erw 16. Dinasoedd 19. Carpiog 21. Didwyll 22. Dawnus 23. Rwsiad 24. Cwmp.

Drwg gennym nad oedd cliw ar gyfer 30 ar draws, ac i wneud traed moch go iawn ohoni rhoddwyd rhif 30 wrth y cliw i 31! Peidied neb â dweud nad yw croesair Eco'r Wyddfa yn sialens. Enillydd: Mrs N. Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis.

Dyddiadur y Mis

3, Iau: DINORWIG - Y Gymdeithas - Noson Amrywiaethol i derfynu'r tymor yn y Ganolfan.

LLANBERIS - Clwb yr Henoed yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria am 12.30.

LLANRUG - Noson Goffi Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.

YR ARDAL - Cyngerdd yn Theatr Seilo, Caernarfon yng nghwmni Seindorf Llanrug, Seindorf Glofa'r Parlwr Du a Hogiau Llandegai.

4 Gwener: YR ARDAL - Cinio Gŵyl Ddewi Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.

LLANBERIS - Clwb yr Henoed.

5 Sadwrn: YR ARDAL - Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

6, Sul: YR ARDAL - Cyngerdd yn Theatr Gwynedd yng nghwmni Seindorf Deiniolen, Côr Caernarfon a Doniau Eraill.

7, Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

BETHEL - Clwb Bro Bethel yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Foelas, Llanrug.

8, Mawrth: Y Cyngor Eglwysi - Seiat dan arweiniad Mrs Mary Lloyd Williams yng nghapel Tan-y-coed. Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Foelas.

DEINIOLEN - Clwb Elidir.

9, Mercher: DINORWIG - Dosbarth Nos Addysg y Gweithwyr - Darlith yn y Ganolfan am 7 o'r gloch ar Hanes y Chwareli gan Mr Ted Williams, Bangor.

Iau, 10: TAN-Y-COED - Ffair Wanwyn gan aelodau Capel Tan-y-coed yn Ysgol Gynradd Llanrug am 7 o'r gloch.

LLANRUG - Clwb Blodau'r Grug.

14, Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist

yn y Ganolfan am 7.30.

15 Mawrth, PENISARWAUN - Clwb yr Heulwen.

16, Mercher: BETHEL - Cinio Blynnyddol Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.

DINORWIG - Dosbarth nos WEA yn y Ganolfan am 7.00. Hanes y Chwareli.

18, Gwener: LLANBERIS - Clwb yr Henoed.

YR ARDAL - Noson yng Nglynllifon am 7.30 gyda'r elw at Gronfa Nant Gwrtheyrn.

19, Sadwrn: BETHEL - Cinio Blynnyddol Clwb y Rhos yng Nghastell Cidwm.

22, Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

23 Mercher: DINORWIG - Dosbarth nos WEA. Darlith ar Hanes y Chwareli yn y Ganolfan am 7.00.

25: Gwener: DEINIOLEN - Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi pryd y dewisir Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd.

Sadwrn, 26: YR ARDAL - Eisteddfod Sir Eryri yn Neuadd P.J. Prifysgol Bangor.

Mawrth 28-Ebrill 8: YR ARDAL - Yr ysgolion ar gau dros Wyl y Pasg.

28, Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

28, Mawrth: WAUNFAWR - Eisteddfod Capel Bethel.

30, Mercher, DINORWIG - Dosbarth nos WEA yn y Ganolfan am 7.00. Hanes y Chwareli.

31, Iau: LLANRUG - Y Cyngor Eglwysi - Cymun cyn y Groglith dan arweiniad gweinidogion yr ardal yng Nghapel Pontrhythallt.

DYDDIADAU I'W COFIO

YR ARDAL - Bydd yr Amgueddfa Iechi yn y Gilfach Ddu yn ailagor ddydd Sadwrn Ebrill 2, 1983. Croeso i bawb fel arfer.

Mehefin 26-Gorffennaf 2: Wythnos Garnifal Bethel.

Gorffennaf 3-9: Wythnos Garnifal Deiniolen.

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 52606

Welsh
Development Agency

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

CHWARAEON

PEN-BLWYDD ARBENNIG

Nos Sadwrn, Chwefror 26 yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis cynhaliwyd parti pen-blwydd arbennig iawn i ddathlu'r ffaith fod Gwilym Williams wedi chwarae i dim pêl-droed Llanberis am 21 o dymhorau. Yn gynharach y diwrnod hwnnw, sgoriodd Gwilym yr ail gôl ym muddugoliaeth Llanberis yn erbyn yr hen elyn, Llanrug; ac er gwaetha'r glaw a'r niwl, daeth carfan o gefnogwyr selog a thwymgalon i'r cae i dalu teyrnged i'r chwaraewr ffyddlon.

Cychwynnodd Gwilym ar ei yrfa gyda Chlwb Pêl-droed Llanberis yn nhymor 1961-63, ac yntau ar y pryd yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Y pryd hwnnw cafodd ei wahodd i arwyddo i Crewe Alexandra, aelod o Gynghrair Lloegr. Er iddo arwyddo iddynt, newidiodd ei feddwl a phenderfynu aros yn Llanberis, ac yn ystod ei dymor cyntaf gyda hwy, enillodd Bencampwriaeth y Gynghrair a Chwpan Alves. Yn ystod y tymhorau a ddilynodd, enillodd Gwilym ymhell dros 40 o whanol dlysau, gan gynnwys pob un yr oedd yn bosibl i Glwb fel Llanberis eu hennill - ar wahân i hen Gwpan Amatur Cymru. Cyrhaeddodd Llanberis rownd go-gynderfynol y Cwpan hwnnw yn ôl yn y '60au pan oedd tîm Llanberis yn sgubo'r cwbl o'u blaen yn y Gogledd; ond colli fu eu hanes yn erbyn Caerllion, Gwilym yw'r unig aelod o'r tîm hwnnw sy'n parhau i chwarae heddiw.

Dair gwaith yn unig cafodd ei demtio i adael Llanberis, gan arwyddo i Mt. Rangers, Nantlle a Bangor, ond byr fu ei arhosiad yn y tri, ac yr oedd yn ôl yn ei safle arferol ar yr asgell dde i Lanberis yn fuan

iawn. Yn y safle hwnnw enillodd dlysau Cwpan Iau Gogledd Cymru dair gwaith yn olynol o 1963-64 hyd 1965-66; Cwpan Amatur Gogledd yn 1979-80. Yn ogystal, mae lluo dlysau pencampwriaeth Cynghrair Caernarfon yn ei feddiant, gan gynnwys yr holl gwpanau - y Deanfield, Alves, Penrhyn, Moorings a Wil Evans.

Nid oes gan Gwilym syniad sawl gwaith a chwaraeodd i Lanberis na sawl gwaith y sgoriodd iddynt. Diddorol fyddai cael gwybod yr ateb. Ar ddiwrnod pan oedd Pat Jennings yn dathlu ei filfed gêm broffesiynol yng Nghynghrair Lloegr, mae'n sicr nad yw Gwilym ymhell iawn o'r sgôr honno 'chwaith.

Gofynnais iddo cyn y gêm yn erbyn Llanrug pa amser a roddodd fwyaf o fwynhad iddo dros y blynyddoedd. Ei uchafbwyntiau oedd ennill Cwpan Cyfryngol Gogledd Cymru dair blynedd yn ôl, a Chwpan Iau Gogledd Cymru am y trydydd tro'n olynol yn 1965-66. Nid rhyfedd felly mai aelodau'r tîm buddugol hwnnw a ddaeth i'r Dolbadarn nos Sadwrn i rannu yn y dathliadau.



Mr I. Ellis Jones, Llywydd Clwb Llanberis yn erbyn Llanrug, ddydd Sadwrn diwethaf.



Pawb a'i lygad ar Gwilym ond y ci - un o Lanrug oedd o beth bynnag, medde nhw!

DYFARNWR YN DATHLU



Roedd yn achlysur arbennig i berson arall ar gae Llanberis ddydd Sadwrn hefyd, sef dathlu 17 mlynedd o ddyfarnu yng Nghynghrair Caernarfon i Terry Jackson o'r Groeslon. Er nad yw'n byw ym mro'r Eco mae'n wyneb cyfarwydd iawn yn ardal Llanberis oherwydd mae'n blismon yno ers chwe blynedd bellach. Mae'n cofio ei gêm gyntaf yn Llanberis, ac yn teimlo'n nerfus iawn ar ddechrau'r gêm oherwydd fod cymaint o 'hen bennau' yn eu tîm. Roedd Gwilym Williams yn chwarae bryd hynny meddai, ac ef yn unig sy'n aros heddiw i atgoffa Terry o'r dyddiau cynnar hynny.

Carai Terry ddiolch i'w gydweithwyr yn yr heddlu am y gefnogaeth a gafodd ganddynt dros y blynyddoedd, a'i gwneud yn bosibl iddo barhau â dyfarnu.

NOFIO DROS GYMRU

Ein llongyfarchiadau i Ian Jones, Hendre, Penisarwaun ar gael ei ddewis i gynrychioli Cymru mewn Cystadleuaeth Nofio Ryng-genedlaethol i Ysgolion yn Cork, Iwerddon yn ystod mis Mawrth. Mae Ian, sy'n ddisgybl yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, yn bencampwr Gogledd Cymru ac yn bencampwr Cymru yn ei ddosbarth oedran ar nofio broga; ac yn aelod o Glwb Nofio Dinas Bangor. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei gystadleuaeth gyntaf dros ei wlad.



DYNION CRYF DEINIOLEN



Len Jones, Deiniolen. Pencampwr Cymru, dosbarth pwysau 60 kilo.



Cemlyn Thomas, Deiniolen. Dosbarth Pwysau 67.5 kilo.